

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 578 • Medi 2026 • £1

Pencampwyr Cenedlaethol - Tad a Merch ar y Brig

Hyfryd yw cael llongyfarch teulu Braich Ty Du, Nant Ffrancan ar eu llwyddiannau arbennig yn Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd eleni. Enillodd Beca Jackson Bencampwriaeth Cneifio y Merched, a daeth ei thad, Elfed, yn Bencampwr Cneifio Gwelleifiau Cymru eto eleni.

Mae Beca wedi cael blwyddyn hynod lwyddiannus gan iddi hefyd ddod yn fuddugol yn Cneifio Corwen a Cneifio Cwmduddwr, Rhaeadr Gwy yn ystod yr haf. Bu'n cynrychioli Cymru yn yr Alban (tîm o ddwy) eleni a dod i'r brig yno hefyd. Y llynedd yn y pencampwriaethau cenedlaethol yn Llanelwedd, enillodd yn y dosbarth iau (peiriant) i ferched a dynion, ac yn y dosbarth agored i ferched. Daeth Beca i amlygrwydd cenedlaethol yn y grefft pan ddaeth yn fuddugol yn y dosbarth cychwynwyr (gwelleifiau) yn Llanelwedd, a hithau'n 16 oed.

Gyda'i fuddugoliaeth, mae Elfed unwaith eto wedi sicrhau ei le yn Nhîm Cneifio Cymru. Mae Elfed wedi cynrychioli Tîm Cneifio Cymru (gwelleifiau) 18 o weithiau – yn ddi-dor ers 1998. Cryn gamp, yn wir, ac mae o wedi teithio i gynrychioli ei wlad yn Iwerddon, Norwy, De Affrica, Ffrainc, Seland Newydd ac Awstralia. Yn ogystal, enillodd bencampwriaethau Cneifio Cothi a Cneifio Corwen eleni.

Mae o wedi ennill y bencampwriaeth genedlaethol sawl gwaith efo'r peiriant a'r gwelleifiau ers y tro cyntaf iddo gystadlu yn 1979 pan oedd o'n 17 oed.

Mae Elfed, a fagwyd yn Nhal Llyn Ogwen, yn cofio'r hen welleifwyr yn wftio'r peiriant cneifio pan ddaeth i'r ardal ddiwedd yr 1960au, ond wrth i'r ifanc ddod i feistrolï eu defnydd o'r peiriant buan iawn y disodlwyd y gweilleifiau. Fodd bynnag, arhosodd y grefft o drin gwelleifiau, ac mae'n dda bod Sioe Amaethyddol Cymru yn rhoi bri arni, gyda'r cystadlaethau cneifio yn hynod boblogaidd bob blwyddyn. Mae'n amlwg bod y tad a'r ferch yn feistri ar eu crefft, boed beiriant neu welleifiau. Maen nhw i'w canmol am gynnal y grefft ar y safon uchaf un, a thrwy hynny gynnal hen draddodiad.



Beca Jackson yn cneifio



Beca Jackson yn cael ei gwobrwyo



Elfed Jackson yn cael ei wobrwyo

Llais Ogwan

Rhif 578
Medi 2026

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

Swyddogion CADEIRYDD

Carwyn Meredydd
carwynn@hotmai.com

Trefnydd hysbysebion

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd

Gareth Llwyd
07887 667956
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain

Yn anffodus, oherwydd
cynnydd aruthrol yng nghostau
postio, 'rydym wedi cael ein
gorfodi i godi ein pris i £35 y
flwyddyn.

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
(Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Ieuan Wyn.

Y golygydd ym mis **Hydref** fydd
Rhodri Llŷr Evans, 2 Rhos y Nant,
Bethesda, LL57 3PP.
07713 865452
E-bost: Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**,
26 Medi os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu Nos Iau, 15 Hydref,
yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.



Clwb Cyfeillion

Gwobrau Awst

£30.00	(110)	Dafydd Owen, Rachub.
£20.00	(78)	Dafydd Roberts, Rhiwlas.
£10.00	(75)	Annes Glyn, Rhiwlas.
£5.00	(131)	Mary Jones, Erw Las.

Gwobrau Medi

£30.00	(130)	Wynne ap Iorwerth, Mynydd Llandygai.
£20.00	(8)	Paul Rowlinson, Lôn Newydd Coetmor.
£10.00	(169)	Rita Lewis, Pantglas, Bethesda.
£5.00	(63)	Siân Esmor Rees, Bron Arfon, Rachub.

**Newyddion Medi i'w dderbyn
erbyn dydd Sadwrn, 29 Awst
Dyddiad cyhoeddi -10 Medi**

Dyddiadur y Dyffryn

Medi

- 19 Bore Coffi MacMillan. Festri Capel
Jerusalem. 10.00 – 12.00.
- 22 Gyrfa Chwist. Llaur Uchaf
Canolfan Cefnfaes am 6.45.
- 26 Dathlu 100 oed Neuadd Bentref
Rhiwlas. Yn y Neuadd am 2.00.
- 28 Clwb Coffi Talybont. Festri
Bethlehem. 10.30 – 12.00.
- 29 Gyrfa Chwist. Llaur Uchaf
Canolfan Cefnfaes am 6.45.

Hydref

- 02 Calfari + Yr Anghysur + Aldos.
Neuadd Ogwen am 7.30.
- 03 Steve Eaves a Rhai Pobl. Neuadd
Bentref Rhiwlas am 8 o'r gloch.
- 08 Y Gymdeithas. Cai Fôn a Mair
Carrington Roberts. Festri
Jerusalem am 7.00.
- 12 Cymdeithas Hanes D. Ogwen.
Jessica John. Festri Capel Jerusalem
am 7.00.
- 12 Clwb Coffi Talybont. Festri
Bethlehem. 10.30 – 12.00.
- 13 Gyrfa Chwist. Llaur Uchaf Canolfan
Cefnfaes am 6.45.
- 15 Noson gasglu a dosbarthu Llais
Ogwan. Llaur uchaf Cefnfaes am
6.45.
- 17 Bore Coffi (er cof am Tracy Smith).
Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
- 24 Bore Coffi Eisteddfod D. Ogwen.
Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00
- 26 Clwb Coffi Talybont. Festri
Bethlehem. 10.30 – 12.00.
- 27 Gyrfa Chwist. Llaur Uchaf
Canolfan Cefnfaes am 6.45.

Rhoddion i'r Llais

- £5.00 Di-enw, Rachub.
- £10.00 Judith Hughes, Llangoed.
- £4.00 Sara Roberts, Braichmelyn.
- £2.30 Bryn y Coed, Braichmelyn.
- £9.00 Luned Edwards, Rhes Jâms.
- £40.00 Er cof am Paul Campbell a fu
farw 15 Awst 1986, oddi wrth
ei fam Hilda, a Lynne a'r teulu.
- £10.00 Er cof am Brenda Lilian
Williams, oddi wrth y teulu.

Diolch yn fawr

**Oes gennych chi ddiddordeb
mewn hysbysebu yn Llais
Ogwan?**

**Cysylltwch a Neville Hughes -
nev_hughes@btinternet.com**



Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen 2026

Cafwyd noson lwyddianus Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen, er cof am Huw Ellis, ei gynnal yng Nghlwb Rygbi nos Wener, Gorffennaf 31ain.

Casglwyd arian i elusen RABI eleni, sef elusen sy'n darparu cefnogaeth i'r gymuned ffermio.

Dymunwn ddiolch o galon i Wayne a Sue Eccles a Chlwb Rygbi Bethesda, i'r holl noddwyr hael, i bawb ddaeth i gystadlu, i bawb a gyfrannodd tuag at y raffl a'r ocsiwn ac i bawb ddaeth draw i'n cefnogi ar y noson i wneud y digwyddiad yma'n llwyddianus unwaith eto.

Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen

Rydym yn gyffrous i gyhoeddi y bydd Taith Tractors Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn digwydd eto eleni!

Y dyddiad ydi dydd **Sul 13.12.26.**

Lleoliad: Cychwyn a gorffen yng Nghlwn Rygbi Bethesda

Manylion llawn i ddilyn yn fuan – ond cadwch y dyddiad yn rhydd!

ARDDANGOSFA GELF

Artistiaid lleol

EGLWYS CRIST @ GLANOGWEN

14-21 MEDI/SEPT
10-4PM

1-4PM. SUL/SUN 20/9/26

Cyswllt:
Parch Sara 07967652981
sara.roberts@cinw.org.uk

Shalom Salam
शान्ति HEDDWCH Paz
Dod at ein gilydd i feddwl am Heddwch

Dewch â'r teulu

Bwyd Swigod!

21 MED 5:30 @ Y CLOC, BANGOR

WEDYN SYMYD I'R GADEIRLAN AM FWYD & SGWRS

Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

Colled
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth un o'n cyn-lyfrgellwyr yma ym Methesda sef Marilyn Jones. Bu'n gweithio yma am flynyddoedd lawer, ac mae nifer o'n cwsmeriaid yn cofio'n annwyl amdani. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Y Sialens Ddarllen
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymryd rhan yn 'Sialens Ddarllen' yr haf.

Cewch fwy o wybodaeth am y gwobrau yn rhifyn nesaf Llais Ogwan.

Cofiwch am y sesiynau canlynol:
'Ji Babi Bach' – pob bore Llun 10:30-11:15. Sesiwn ganu, a stori ar gyfer babanod sydd heb gychwyn cropian (am ddim).
'Paned a Sgwrs' bob bore lau – 10:30 – 11:30. Cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio yn y Gymraeg (am ddim).



Sesiwn iwcalele gyda Huwcalele.

Gweithgareddau'r Haf.
Diolch yn fawr i bawb a ddaeth draw i'n gweithgareddau a gynhaliwyd dros yr haf yn y llyfrgell. Cafwyd amryw o weithgareddau gwahanol, sef Creu Gardd o focs esgidiau, gwnïo a chreu bagiau gyda 'Creu Llonyddwch'; creu collage o Ddyffryn Ogwen; sesiwn gerddorol iwcalele gyda Huwcalele; ac yn olaf sesiwn stori gyda Lleucu Llyfrau.
Roedd yn braf iawn gweld y lle

o dan ei sang ac yn llawn bwrllwm! Cewch fwy o wybodaeth cyn bo hir am fwy o weithgareddau yn y llyfrgell.

Dyma'r gerddi gorffenedig a grëwyd mewn bocsys esgidiau.

Pentir

Ras Hwyl Pentir

Ar noson hyfryd ym mis Gorffennaf cynhaliwyd Ras Hwyl Pentir. Mae'r ras hon yn cael ei chynnal yn flynyddol ac unwaith eto bu'n llwyddiant ysgubol gyda 97 o redwyr yn cymryd rhan. Mae'r cwrs yn 4.5km o hyd, yn cychwyn o Ryd y Groes, ar draws caeau Pant Cyff tuag at Gaffi Moelyci ac yn ôl heibio'r hen Ficerdy.

Un peth sy'n gwneud y ras mor arbennig ydy'r ystod eang o oeddrannau sy'n cymryd rhan, o 11 oed hyd at redwyr yn eu hwythdegau. Mae'r gymuned gyfan yn gweithredu fel stiwardiaid, yn gosod allan y cwrs, yn cynnig gwasanaeth cymorth cyntaf ac yn paratoi danteithion a digon o ddŵr yfed.

Fe gwblhaodd pawb y ras gyda'r enillydd eleni yn croesi'r llinell mewn 16 munud a 47 eiliad – canlyniad rhagorol.

Mae unrhyw elw a wneir o gynnal y ras yn cael ei ddosbarthu rhwng elusennau lleol. Diolch i bawb gymerodd ran ac i'r holl stiwardiaid.

Cinio Mawr

Mae'r 'Cinio Mawr' wedi bod yn ddigwyddiad blynyddol ym Mhentir ar wahân i ginio 2025 pan ohiriwyd yr achlysur fel arwydd o barch i'r diweddar Linda Salmonds. Dros y blynyddoedd rydym wedi cael pob math o dywydd. Un flwyddyn roedd pawb yn eu cotiau gaeaf cynnes, a thro arall roedd pawb yn eu cotiau glaw. Eleni roedd y tywydd yn ffafriol tu hwnt a daeth criw mawr ynghyd i gyd-wledda ac roedd digon o ddewis os am dorri syched.

Diolch i berchnogion yr Hen Bost am gael defnyddio eu gardd ac i Gyngor Cymuned Pentir am gefnogi trwy roi cymhorthdal i brynu 'gasebo' i roi cysgod rhag yr haul.

'Deryn Naw o'r gloch'

Torrwyd rhan o goedlan Parc y Bwlch rhwng Mynydd Llandygái a Phentir yn 2024. Ar ôl cael gwared â'r coed pinwydd mae coed a phlanhigion cynhenid ynghyd â bywyd gwyllt yn prysur feddiannu'r ardal honno.

Yn ystod tywydd cynnes misoedd Mehefin a Gorffennaf, braf oedd eistedd allan gyda'r



nos heb ofni glaw a gwyntoedd miniog. Yn ystod un o'r nosweithiau hyfryd hynny, clywsom sŵn estron iawn o'r rhan ble torrwyd y coed. Roedd yn ddirgelwch pur ond ar ôl ychydig ymchwil, darganfod mai galwad un o'r adar hynny sy'n ymweld â Chymru oedd yn cynhyrchu'r sŵn anghyffredin sef, 'Deryn Naw o'r Gloch'.

'Deryn Naw o'r Gloch' yw'r enw llafar a roddir i'r Troellwr Mawr. Aderyn pur hyll sy'n ymwelydd tymhorol i'r ynysoedd yma. Mae'r gynffon yn hir, y pen yn wastad bron, ceg lydan iawn a dwy lygad mawr. Gorchuddid y corff gyda phlu llwyd-frown sydd yn gwneud yr aderyn yn anodd iawn i'w weld pan yn gorwedd. Maent yn swatio'n ystod y dydd ac yn dod allan gyda'r nos fel mae'r enw llafar yn awgrymu; dod allan i chwilio am fwyd a chymar hyd nes mae'n gwawrio. Y ceiliog sy'n cynhyrchu'r sŵn,

fel rhyw 'chur' sy'n mynd i fyny ac i lawr. Mae hefyd yn curo ei adenydd sy'n amlygu'r sŵn fwy byth. Mae'r iâr yn dodwy dau wy ar y ddaear gyda'r ceiliog a'r iâr yn bwydo'r cywion. Maent yn hedfan yn hynod ddistaw ac roedd pobl erstalwm yn dweud bod ganddynt allu i ddwyn llefrith anifeiliaid y fferm.

Mae'n un o'r adar tymhorol hwyraf i gyrraedd yr ynysoedd yma, tua diwedd Ebrill i gychwyn Mai. Mae hefyd yn un o'r rhai hwyraf i adael gan hedfan dros y Sahara i'r Congo.

Torri'r coed ddaeth â'r Troellwr Mawr i'r ardal. Mae gwers amgylcheddol yma. Rydym y gwybod bod y tir dan goed pîn yn lle eithaf llwm yn enwedig pan maent yn cael eu plannu'n agos iawn at ei gilydd. Wrth weithredu'n ofalus a chynnig amrywiaeth o lecynnau gwahanol i fywyd gwyllt, mae modd ennill yn ôl rai o'r adar a'r anifeiliaid hynny oedd mor gyffredin lawer dydd yn ôl.

Bwriad Cyfoeth Naturiol Cymru ydy ail-blannu'r ardal dan sylw. Y gobaith ydy nad ydynt am ail-greu camgymeriadau'r gorffennol.

Cynrig Hughes

Taith Hyfryd o Amgylch Bethesda

Ar y 19eg o Awst, daeth 24 o aelodau a phedwar ci tywys o Glwb Cerdded Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru ar daith gerdded o amgylch Bethesda. Mae'r Clwb Cerdded yn cyfarfod yn fisol ac yn mynd ar deithiau cerdded mewn gwahanol lefydd o amgylch Arfon ac Ynys Môn. Mwynhaodd pawb y daith ar hyd rhai o lonydd a llwybrau tawelach y pentref. Dewisiwyd y daith bedair-milltir hon gan Mark Roberts am ein bod yng nghanol y tymor gwyliau a'i bod hi'n daith gerdded mewn ardal heb lawer o dwristiaeth.

Mae Mark ei hun yn byw ym Methesda ac fe arweiniodd ni ar hyd lwybrau y mae ef a'i gi tywys ffyddlon, Forest, yn eu cerdded yn aml. Dechreuwyd y daith o Ganolfan Hamdden Plas Ffrancon ac anelu at lethrau isaf mynyddoedd y Carneddau i fyny at Gae Clochydd a Than-y-foel cyn dychwelyd yn ôl i'r pentref ar hyd Ffordd yr Elen ar gyfer ein cinio yn Llys Dafydd. Cafodd y llecyn cymdeithasol yma ei greu i gofio hanes Streic Fawr y Penrhyn ac mae'n gyrchfan ddiddorol ar



Lun gan Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru

ffurf theatr. 'Roedd gwaith llechi diddorol ac enwau'r mynyddoedd lleol i'w gweld yno hefyd.

Ar ôl cinio, aeth y daith ymlaen dros afon Ogwen cyn parhau ar hyd Lôn Las Ogwen (Llwybr y Llechi) tuag at Zipworld. Arhoswyd am ennyn wrth hen safle Ysbyty'r Chwarel (y Penrhyn) – un o'r ysbytai cyntaf yn y byd i ddefnyddio anaesthetig. Yn Zipworld, fe wnaeth pawb fwynhau paned tra'n rhyfeddu

at y dewrion ar y llinellau uwch ein pennau. Yno fe wnaeth y bws ein codi ar gyfer y daith yn ôl i Fethesda a Bangor gyda phawb wedi mwynhau taith ddiddorol iawn unwaith eto.

Hoffai Clwb Cerdded Eryri a Chymdeithas Deillion Gogledd Cymru ddiolch yn fawr i Ganolfan Hamdden Plas Ffrancon, Byw'n lach ac i Zipworld, Bethesda am eu cymorth i ddefnyddio eu cyfleusterau.

Mae croeso i unrhyw un sy'n ddall neu'n byw gydag amhariad ar eu golwg i ymuno gyda'r Clwb Cerdded ar ein teithiau misol. Ffoniwch neu anfonwch e-bost at Bethan Sage Williams, 01248 353604 yng Nghymdeithas Deillion Gogledd Cymru ym Mangor. bethan@nwsb.org.uk

(Derbyniwyd yr erthygl hon gan Hywel Trewyn o Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru.)

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

Festri Jerusalem Bore Coffi Macmillan

Sadwrn, 19 Medi
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00



Clwb Coffi Talybont


FESTRI BETHLEHEM
Boreau Llun, 10.30 – 12.00

Medi 28
Hydref 12
a 26
Croeso
cynnes i bawb



TOP CEFNFAES Gyrfa Chwist

Medi 22 a 29
Hydref 13 a 27



am 6.45yh.
Croeso i bawb



Bore Coffi (er cof am Tacy Smith) yn Festri Jerusalem

Sadwrn, 17 Hydref
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

FESTRI JERUSALEM

Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Sadwrn,
24 Hydref
10.00 – 12.00
Mynediad:
£1.00



SEFYDLIAD Y MERCHED CARNEDDI

Cyfarfod ar nos Iau
cyntaf o'r mis yn
FESTRI CAPEL
JERUSALEM
am 7 o'r gloch
Croeso cynnes i
aelodau newydd

*Oes gennych chi ddiddordeb mewn
hysbysebu yn Llais Ogwen?*

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN RHAGLEN 2026/2027

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar **yr ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch**. Cynhelir y Cyfarfod Blyneddol am 7.00 o'r gloch, ar nos Lun 14 Rhagfyr 2026, a bydd y ddarlith yn cychwyn am 7.15 o'r gloch.

Lleoliad y cyfarfodydd:

Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo gofod@ogwen.org. Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.

2026

Nos Lun 12 Hydref 7.00 **Jessica John** – 'Llên Gwerin a Chwedlau yn ein Tirwedd Hanesyddol'

Nos Lun 9 Tachwedd 7.00 **Ieuan Wyn Jones** – 'Tom Ellis, W.J. Parry a Chymru'r 19ed. ganrif'

Nos Lun 14 Rhagfyr 7.00 Y Cyfarfod Blyneddol
7.15 **Ieuan Wyn** – 'Pentra' Caradog Prichard – Bethesda Atgof a Dychymyg'

2027

Nos Lun 11 Ionawr 7.00 **Gari Wyn** – 'Twf Dinas Bangor fel dinas dysg, gan ystyried ei pherthynas gyda Bethesda rhwng 1858 a 1925'

Nos Lun 8 Chwefror 7.00 **Dr Elis Dafydd** – 'R. Williams Parry a Dyffryn Ogwen'

Nos Lun 8 Mawrth 7.00 **Dyfrig Hughes** – 'Dr Ffrangcon Roberts :y Gweledydd Di-Flewyn-ar-Dafod o Fethesda'

[Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]

FFI AM Y CWRs Oedolion £10.00
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
BACS: 40-16-02 41386212, neu gydag arian parod ar y noson

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2025/26:

Cadeirydd: Ieuan Wyn

Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, 07901 888390 dafydd@caerwern.cymru

Ysgrifennydd: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415 garethllwyd197@btinternet.com

Llywyddion Anrhydeddus: Dr John Llywelyn Williams ac André Lomozik

Efan Electro yn Rhyddhau Sengl Newydd

Mae'r DJ, cynhyrchydd a chyflwynydd radio ifanc o Lanllechid, Efan Electro, wedi derbyn sylw ddechrau'r haf wrth iddo ryddhau ei sengl newydd, **Cofiwch** ar Orffennaf 10fed ar label Recordiau Mostly Host's. Nid dyma'r tro cyntaf i Efan ryddhau sengl wrth iddo ddatblygu ei ddull cerddorol dawnns techno.

Wedi ei ysbrydoli gan stori Tryweryn a boddi Capel Celyn, mae trac y llanc amryddawn 11 oed yn defnyddio cerddoriaeth electronig i archwilio cof, hunaniaeth Gymreig a balchder cenedlaethol.

Mae **Cofiwch** yn drac electronig tywyll ac atmosfferig gydag alaw sydd wedi'i chyfansoddi i ddeffro emosiwn, yn fyfyrion ac yn ddrychafol. Yn hytrach na dadlennu'r stori trwy eiriau yn unig, mae Efan wedi cyfleu teimlad ynglŷn â Thryweryn mewn record ddawns fodern, gan gludo pwysau hanes Cymru i mewn i sain a fwriadwyd ar gyfer gwrandawyr heddiw.

Mae stori Tryweryn yn parhau i fod yn un o'r digwyddiadau mwyaf pwerus yng nghof y

Gymru yfoes. Pan gwblhawyd yr argae yn 1965, boddwyd y dyffryn a diflannodd Capel Celyn o dan Lyn Celyn. I Efan, mae'r stori'n cynrychioli mwy na'r gorffennol yn unig. Mae'n nodyn atgoffa o iaith, cymuned, hunaniaeth a phwysigrwydd cofio o ble rydych chi'n dod.

Yn y datganiad ar ei wefan (Efan Electro - DJ & Music Producer in North Wales) meddai Efan: "Mae Tryweryn yn rhywbeth y dylai pobl yng Nghymru ei gofio bob amser. Roeddwn i eisiau i'r trac deimlo'n emosiynol ac yn bwerus, ond hefyd yn falch – fel darn o hanes Cymru wedi ei drosglwyddo i gerddoriaeth electronig."

Ac yntau ond yn 11 oed, mae Efan eisoes yn meithrin enw da fel un o artistiaid electronig ifanc mwyaf cyffrous Cymru. O'i gartref yn



Llanllechid, mae wedi bod yn datblygu sain sy'n dod ag ynni gwyliau tŷ, techno ynghyd â hunaniaeth Gymreig gref yn ei galon.

Mae'r sengl newydd hon yn dilyn cyfnod o fomentwm cynyddol i Efan, sydd wedi perfformio mewn digwyddiadau ledled Cymru a thu hwnt, wedi cefnogi enwau sefydlog, wedi ymddangos ar y radio, ac wedi tynnu sylw am gynhyrchu cerddoriaeth electronig â dylanwad

Cymreig ar oedran mor ifanc. Ef hefyd yw cyflwynydd Efan's Electric Hour ar Radio Dinas Wrecsam, a ddarlledir bob nos Wener am 9yh.

Braf yw gweld bachgen ifanc yn cael cymaint o sylw wrth iddo ddatblygu ei arlwy cerddorol a chreu enw iddo ef ei hun. Dymunwn bob llwyddiant i Efan.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Gwirfoddolwch gyda ni

Ydych chi'n 18 – 29 oed ac yn medru gwrandao a helpu eraill?

Rydyn ni'n chwilio am bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i ymuno â ni.

Bydd cwrs hyfforddi yn dechrau 24 Hydref a byddwn yn talu costau teithio yn ystod eich hyfforddiant.

Diddordeb?

Cysylltwch â ni:
E-bost: recruiwio@samariaidbangor.org
Ffôn/testun: 07795 082524

GWERSI PIANO

- Tiwtor Piano arbenigol, cyfeillgar, amyneddgar, cymwysedig a chanddo dros 40 mlynedd o brofiad hyfforddi.
- Prisiau rhesymol a thalu ar gychwyn bob gwers nid am wythnosau ymlaen llaw.
- Ni chodir tâl am absenoldeb oherwydd salwch.
- Rhiant neu ofalydd cyfrifol yn bresennol ym mhob gwers.
- Anogir bob disgybl i sefyll arholiadau'r Associated Board neu fwrdd arholi arall. Dim arholiadau i oedolion.
- Gwersi trwy gydol y flwyddyn yn ddewisol (yn cynnwys rhai gwyliau ysgol). Caniateir gwyliau ar unrhyw bryd arall trwy drefniant ymlaen llaw.
- Ni dderbynnir plant sy'n iau na **6 mlwydd oed**.

Cysylltwch â: Gerwyn Llwyd, FVCM, LWCMD, ar Bethesda **01248 602901**

MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

PERCHNOGION
A.L.L. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

CHWILAIR



ARWEINWYR A CHYFEILYDDION CÔR Y PENRHYN

B	M	M	B	J	R	F	I	E	U	A	N	J	O	N	E	S	U	N	K
B	E	Z	E	B	B	C	U	Y	C	F	T	Z	M	A	P	U	X	N	R
M	N	Z	T	S	X	Z	T	U	A	J	I	B	U	G	W	X	B	X	Y
E	A	M	R	J	K	T	O	W	A	I	N	D	A	V	I	E	S	S	I
N	I	S	H	T	I	F	F	I	R	G	S	E	M	A	J	Q	S	M	N
N	W	Z	C	Z	A	Q	J	N	Q	V	Q	S	Y	M	M	E	Z	A	G
A	I	F	L	R	T	S	A	P	U	M	E	E	Q	B	I	Z	U	R	W
L	L	L	A	F	P	W	A	B	M	N	Y	W	W	V	S	Z	F	Y	E
E	L	R	V	E	A	V	O	M	O	M	L	D	A	U	N	W	C	J	P
Y	I	U	F	M	K	N	S	J	O	U	I	D	A	E	P	H	B	O	M
S	A	F	C	R	W	I	D	H	M	H	S	X	W	S	S	K	C	N	V
H	M	G	A	J	X	N	W	L	G	E	T	O	K	E	J	Q	L	E	Q
O	S	T	V	L	A	N	Q	I	C	G	T	N	N	K	S	R	E	S	Y
N	A	I	X	L	M	N	W	N	R	E	K	O	O	P	D	Z	M	D	I
P	V	M	W	D	M	D	A	I	R	R	J	V	W	C	E	E	T	H	I
G	B	O	X	R	C	R	R	A	A	D	Q	P	U	E	N	X	V	Q	M
U	R	T	E	J	F	X	G	N	I	W	S	H	P	C	I	A	J	K	O
X	R	T	Z	J	C	R	K	V	H	X	G	K	C	N	N	N	R	F	F
K	Z	N	P	J	A	J	A	N	O	I	F	I	E	N	H	O	J	F	U
X	R	O	N	M	Y	D	F	A	Z	M	Z	F	V	C	L	B	Z	J	F

Yn y Chwilair y mis yma mae ENWAU deuddeg o ARWEINWYR a CHYFEILYDDION CÔR Y PENRHYN tros y blynyddoedd, i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair

dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 24 Medi . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif

agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.** Mae fy niolch yn fawr iawn i Emyr Roberts, Ffordd Bangor, am awgrymu testun y Chwilair mis yma. Pob hwyl.

Dyma atebion Chwilair Gorffennaf :- Bodforis; Cobden; Dolgam; Glantraeth; Gwern Gof Isaf; Meifod; Nant y Gro; Pentre Du; Penuel; Pont y Pair; Rhos Penrhyn; Tŷ Hyll

Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir :- Judith Hughes, Llangoed; Rosslyn Owen, Rhosmeirch; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Olive Williams, Maes-y-Garnedd; Sioned Cross / Beca Hughes, Adwy'r Nant; Huw Williams, Erw Las; Rosemary Williams, Tregarth; Carys Parry, Caerhun; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gwen Davies, Tanysgafell Isaf; Heulwen Roberts, Ystradawel.

Enillydd Gorffennaf oedd: Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon LL54 7HN.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Profedigaeth

Gyda thristwch mawr, bu'n rhaid inni ffarwelio â ffrind a chymdoges arall o'r pentref yn ystod gwyliau'r haf. Ar Awst 17eg, yn dawel yn ei chartref, Tŷ Cerrig, Cae Gwigin, bu farw'r annwyl Louie Hughes: mam; mam-yng-nghyfraith; nain; hen-nain; chwaer; a ffrind i lawer ohonom yma yn Nhalybont a Llandygái, ac ym Mangor lle y ganed. Yn ystod ei gwaeledd byr, bu'n uchel ei chlod am y gofal tyner a dderbyniodd gan Judy, ei merch ffyddlon; ei meibion, Mike a Gary; eu gwragedd, Hazel a Nicky, a'i hŵyr Dafydd a'i wraig Emma, sy'n byw efo'u merch fach Nel, y tu cefn i Dŷ Cerrig. Gwraig hynod o brysur a chymwynasgar oedd Louie. Dros y blynyddoedd, mae hi wedi gweu pentyrau o ddillad babi, teganau a thlysau o bob math i godi arian at Gronfa Cyfeillion Pier Bangor. Ni fynnai byth dynnu sylw ati ei hun; gwraig dawel a dirodres ydoedd, ond roedd hi'n gadarn fel dur. Chwe mis yn ôl, gwnaeth y teulu de penblwydd 90 iddi yn ei chartref, pryd y cafodd ei ffrindiau i gyd gyfle i rannu ei diwrnod arbennig, a dangos eu gwerthfawrogiad mawr ohoni. Wrth alw heibio am sgwrs yn ddiweddar, chwith oedd gweld y gweill yn segur; ond hyd yn oed yn ei gwendid, daliodd Louie i fwynhau hel atgofion, a chwerthin am ben ambell i dro trwstan; ac 'roedd ei chonsyrn am ei ffrindiau a'i chymdogion mor ddwfn ag erioed. Judy a'r teulu oll, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch yn eich colled anferth. Byddwn i gyd yn colli cwmni Louie, ond yn cofio amdani bob amser â gŵen a gair da.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Sam Parry, 17 Dolhelyg, a ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed wrth i'r Llais fynd i'r wasg ym mis Gorffennaf. Pob bendith a llwyddiant i'r dyfodol, Sam!

Babi newydd

Llongyfarchiadau cynhesaf i Sara a Billy, Bro Awel, Dolhelyg, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ar Awst 12ed, ganwyd Bobi David i'w merch hynaf, Chloe a'i chymar, Owen. Mae'r teulu bach wedi ymgartrefu yn Llanfairfechan, er mawr lawenydd i hen nain a taid, Gwenda a David, sy'n rhieni i Ceri, mam Owen. Llongyfarchiadau i chditha' hefyd, Ceri, oddi wrth bawb sy'n dy gofio yn dod i Gae Gwigin.

Fel y gŵyr hen drigolion y pentref, mae Gwenda yn ferch i'r diweddar Eifion a Mair Evans, 34 Cae Gwigin. A 'fedra' i ddim peidio â chrybwyll Harri a Mia, brawd a chwaer Chloe, sydd wedi mopio efo'u nai bach newydd.

Edrychwn ymlaen yn arw at ddod i 'nabod Bobi pan ddaw i Dalybont am dro. Pob bendith ar y bychan, ac ar y teulu i gyd.



Camp enfawr

Yn Glasgow, ym mis Gorffennaf daeth llwyddiant yn Gemau'r Gymanwlad i Nicole Roberts, merch Katie a Danny, Tŷ Capel Gilfach. Fel aelod o Garfan Cymru, llwyddodd Nicole i gyrraedd y 6ed safle yn y dosbarth Codi Pwysau i Ferched o dan 48kg. Mae Nicole yn cystadlu ar

lefel genedlaethol, ac yn rhyngwladol fel aelod o garfan Prydain. Braff iawn oedd gwrandio arni'n cael ei chyfweld yn Gymraeg ar ôl iddi orffen cystadlu. Llongyfarchiadau mawr iti, Nicole; mae pawb yn y fro yn falch iawn o'th llwyddiant dros dy wlad. Pob hwyl iti i'r dyfodol!

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Cara Lois, 75 Bro Emrys, fydd yn cychwyn tymor yr Hydref yn Ysgol Pendalar yn ei swydd newydd fel athrawes. Mae hi wedi gweithio'n galed iawn ac yn llwyr haeddu ei llwyddiant. Gobeithio y cei yrfa hapus iawn, Cara. Gwyddom fod plant Pendalar wrth eu bodd yn dy gwmni.

Merch arall o'r pentref sydd wedi gweithio'n hynod o galed i gyrraedd ei nôd yw Seren Unsted, 3 Dolhelyg. Mae Seren wedi cymhwyso fel Therapydd Ddeintyddol. 'Fedra' i ddim meddwl am neb gwell na hi i wneud y gwaith yna. Pob llwyddiant a dedwyddwch iti, Seren, yn dy swydd newydd.

Cartref newydd

Croeso cynnes i Faith, sydd newydd ddod i fyw i dai Pentrefelin. Gobeithio y byddi'n hapus iawn yn ein plith.

Mae Tess ac Avaya Gross hefyd wedi symud tŷ o 33 Bro Emrys, lle buont yn byw efo Julie a Vernon, rhieni Tess, i rif 34 drws nesaf. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd. O leiaf, cawsant sbario llogi fan ddodrefn i'w symud.

Croeso cynnes iawn i Ramond a Pauline Edwards i'w cartref newydd; hwythau yn rhif 2 Min Ogwen. Mae pawb mor falch eich bod wedi dod atom o'r diwedd, Raymond a Pauline, ac yn edrych ymlaen at fwynhau eich cwmni yn y pentref. Bydd pobl Llandygái yn eich colli'n arw ar ôl blynyddoedd o fyw yn 'Tŷ'r Ysgol Bach'.

Brysiwch wella

Cafodd Cora, Melin Cochwillan, godwm cas yn ei chartref yn ystod mis Awst. Gobeithio dy fod

yn teimlo'n well erbyn hyn, Cora? Edrychwn ymlaen at gael dy gwmni yn y Clwb Coffi.

Nodyn i'm cwsmeriaid

Fel y gwelwch, mae Pwyllgor Llais Ogwan wedi gorfod codi pris ein papur bro i £1 y mis. (£11 am y flwyddyn). Mae'n dal yn fargen, ffrindiau. Mae'n costio llai na hanner pris y papurau dyddiol, ac mae'r cynnwys ddwywaith yn ddifyrach. Daliwch i ddarllen y Llais, i chi gael gwybod am y gweithgareddau

sy'n mynd ymlaen ym mhentrefi'r Dyffryn a'u cefnogi. Os 'dach chi isio inni gynnwys eitem o newyddion yn y papur, mae croesi ichi roi tonc imi ar

07765600822 neu anfon neges ar WhatsApp. A fuasech mor garedig â roi'r arian imi pan ddo' i heibio ym mis Hydref, neu eu gadael yn 1 Dolhelyg? Diolch o galon ichi i gyd am eich cefnogaeth ffyddlon hyd y blynyddoedd.

Cyfarchion y Tymor

Dymuniadau gorau i bawb, o bob oed a lle bynnag y bônt, ar ddechrau'r tymor newydd.

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)

Medi 20 Oedfa i'w threfnu.
Medi 27 Parchg. Cledwyn Williams.
Hydref 04 Parchg. Trefor Lewis.
Hydref 11 Parchg. John Pritchard.
Hydref 18 Oedfa Ddiolchgarwch.
Hydref 25 Parchg. Anna Jane Evans.

Croeso cynnes i bawb.

Chwedl a Choel 15

Howard Huws

Coelion ac Arferion Meddyginiaethau

Dwi am droi rŵan at feddyginiaethau. Ers talwm, roedd gofyn talu am wasanaeth meddyg, ac nid oedd dim sicrwydd y gwnâi ei ffisysg o ddim gwahaniaeth i'r claf. Yn wir, gallai triniaeth feddygol fod yn fwy peryglus na'r clefyd ei hun. Felly, roedd yn rhaid i bobl eu trin eu hunain, gorau y gallent, gan ddefnyddio cymysgedd o wybodaeth am yr hyn oedd wedi llwyddo i'w gwella yn y gorffennol, ac ofergoelion. Roedd yna wastad rywun yn y gymdogaeth – gwraig, yn aml – oedd yn brofiadol yn y math hwn o waith, yn medru trin esgyrn neu gymalau, neu wedi etifeddu ryseitiai meddygol oedd yn cynnwys planhigion.

Dyna Lowri Galed, sef Lowri Jones o'r Sychnant. Roedd ganddi hafod yn y Carneddau, lle'r aethai hi efo'i gwartheg yn nyddiau Cromwel. Yr oedd hi'n feddygwraig ac yn fydwraig enwog, cymaint felly fel y tybiai rhai ei bod mewn cyfrinach â'r Diafol. Draw yn Rhiwlas ceid adfeilion lle o'r enw Maes Meddygon ar ochr Moel Rhiwen, efo hanes y bu brwydr yn y cyffiniau rhwng y Cymry a'r Gwyddelod, ac mai yno y triniwyd y rhai a anafwyd. Ym Mhentir, hen enw fferm Niwbwrch oedd Tyddyn Meddygon.

Yn agosach at ein dyddiau ni, roedd meddygon esgyrn yn Rachub. Ceid un yn Carmel Place, a'r llall yn Lôn Groes. Am yr olaf, onid oedd cwsmeriaid yn talu'n brydlon, byddai'n datgymalu coesau eu cathod nhw, ac yn gwrthod â'u rhoi yn ôl yn eu lle hyd nes iddo gael y tâl dyledus.

Roedd Now Bach Dob yn gwerthu eli'r ddafad wyllt mewn potyn bach, am hanner coron (2/6d, neu 12 ½ ceiniog heddiw). Math o gancr y croen oedd y ddafad



Meddyg y ddafad wyllt ym Mhwlheli

wyllt, tueddol o effeithio ar bobl oedd yn gweithio yn yr awyr agored. Roedd meddygon enwog ym Mhwlheli am drin y ddafad wyllt, a phobl o Ddyffryn Ogwen yn mynd atynt: a'r tebyg yw i'w heli nhw gynnwys arsenig. Roedd Now Jô Felin yn gwerthu cymysgedd at annwyd: diod â blas ofnadwy arno, ond roedd yn effeithiol. I fyny allt Pentir roedd hen wraig yn gwneud eli i'w roi ar sgôr, sef anaf, a hwnnw'n cau'r sgôr yn dda.

Roedd defaid croen yn gyffredin iawn, yn enwedig ar ddwylo pobl, a cheid sawl meddyginiaeth ar eu cyfer. Yn un man roedd carreg neilltuol â phant ynddi, lle byddai rhywfaint o ddŵr lliw copr yn ymhel: a rhoddid y dŵr hwnnw ar y ddafad. Neu gellid ei rhwbio â bacwn, a chladdu hwnnw yn yr ardd, gan obeithio y byddai'r ddafad yn diflannu wrth i'r bacwn bydru. Yn ôl eraill, rhaid oedd rhwymo'r bacwn ar y ddafad, a'i adael yno. Gellir 'tagu' dafad trwy rwymo edau amdani, a disgwyl iddi syrthio i ffwrdd: neu 'werthu'r' ddafad i bwy

bynag oedd yn fodlon cymryd tâl amdani. Cofia Dafydd Gwilym fel y cafodd wared ar ddefaid drwy eu gwerthu am dair ceiniog i gydweithiwr.

Cofiai eraill rhwbio'r ddafad â sudd gwyn planhigyn a dyfai yn ymyl dŵr, neu sudd dant y llew. Yn achos ddafad fawr ar y llaw, roedd un wraig a holais yn cofio mynd at feddyg y ddafad wyllt ym Mhwlheli, a hwnnw'n ei chynghori i roi petrol arni.

Tyfiant arall oedd 'ganglion', sef lwmpyn yn codi ar y garddwrn. Y driniaeth at hwnnw oedd rhwymo 'naw tro' edafedd wlân am y garddwrn, a'i chlymu: hen feddyginiaeth sydd a'i gwreiddiau yn ôl yn y cyfnod paganadd. Yr oedd triniaeth fwy Cristnogol ar gael, hefyd, sef taro'r lwmpyn efo Beibl teuluol mawr.

Un ffordd go sicr o wella cleifion oedd rhoi gwell bwyd iddynt. Cofia llawer gael pryd o fara wedi ei fwydo mewn dŵr poeth ac Oxo, sef y ciwbiau sudd cig eidion, burum a halen hynny sy'n rhoi gwell flas ar eich grefi. Câ cleifion 'turkey pie', hefyd, nad oedd yn ddim mwy na bara, dŵr, pupur a halen; a 'brywes menynd', os yn dechrau bwyta wedi afiechyd. Roedd hwnnw'n damaid o fara efo lwmp o fenyn, pupur, halen a dŵr berwedig.

Roedd triniaeth adfer iechyd ar gael i anifeiliaid, yn ogystal. Byddai gan un ffarmwr gae lle tyfai'r 'feddyges las' (*Prunella vulgaris*), a rhoddid gwartheg i bori yno wedi iddynt ddod â llo, er mwyn iddynt ymadfer.

Os oes gennych chi atgofion am feddyginiaethau, rhowch wybod i Howard! Byddai'n falch iawn o glywed unrhyw hanesion gennych. Gallwch gysylltu gyda Howard trwy anfon neges ato yn cyfarchiad@yahoo.co.uk neu ei ffonio ar 07870 797655.

L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

DAFYDD
CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system
gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

SPAR

01248 605566

Archfarchnad hwylus a Swyddfa
Bost Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau
trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan
10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

Llandygái

Iona Wyn Jones, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

Eglwys Sant Tegai

Croeso'n ôl!

Daeth y gwyliau i ben a chroesawn yn ôl blant a staff Ysgol Llandygái ar gyfer Tymor yr Hydref. Estynnir croeso arbennig i Myfanwy Carpenter o Dalybont, aelod o gynulleidfa St Tegai fel Llywodraethwr Sylfaenol yn cynrychioli'r Eglwys. Fel ysgol eglwysig mae cysylltiad clòs yr eglwys yn bwysig gyda thri aelod o'r gynulleidfa a'r Ficer ar y Bwrdd Llywodraethol.

Newyddion Atgyweirio

Cododd Mis Rhodd St Tegai (Mehefin) dros £800 ar gyfer y Gronfa Atgyweirio. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu drwy'r casgliad neu drwy roddion ychwanegol hael. Mae pob punt yn helpu!

Cawsom ddau ymweliad ym mis Awst gyda'r bwriad o gynnig cymorth gyda'r gwaith atgyweirio a'r gwaith marchnata. Roedd yr ymweliad cyntaf gan gynrychiolwyr Llechi LleNi, sef swyddfa Cyngor Gwynedd Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, 'Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru', sydd yn awyddus i gynnwys St Tegai ar eu map ac sy'n barod i helpu gyda'r arwyddion gwybodaeth.

Yr ail ymweliad oedd yr archwiliad esgobaethol pum mlynedd o gyflwr yr adeilad (Adroddiad Ezra). Bydd hwn yn sail i gam nesaf y rhaglen atgyweirio ac i unrhyw geisiadau am grantiau. Bydd yr adroddiad yn cael ei lunio gan Swyddog Eiddo'r Esgobaeth a'n pensaer cadwraeth.

Rhodd Ariannol gan Gyngor Cymunedol Llandygái

Hoffem ddiolch i Gyngor Cymunedol Llandygái am ei gyfraniad tuag at gynnal a chadw'r fynwent. Fel y gwyddoch, mae pob eglwys yn

gyfrifol am dorri'r gwair, rheoli tyfiant coed, a chynnal a chadw waliau a gatau yn ei mynwent. Mae hyn yn gostus iawn ac rydym yn hynod ddiolchgar i'r Cyngor am gefnogi ein cais am arian.

Mae mynwent St Tegai yn gwarchod beddau o blwyf hanesyddol Llandygái, a oedd yn gwasanaethu cymunedau Tregarth, Mynydd Llandygái a Nant Ffrancon hyd at Gapel Curig.

Ffarwél

Rydym yn drist fod Reshma ac Aswin Kokkat o Benlan wedi gadael yr eglwys a'r ardal ar ddiwedd mis Awst, ond rydym yn falch iawn am newyddion eu gyrfa: Reshma wedi cael swydd newydd yn Surrey, lle bydd yn gweithio i Lywodraeth y DU. Bydd Aswin yn parhau i weithio o bell i Lywodraeth Cymru.

Dymunwn yn dda iddynt yn eu hantur newydd a diolchwn iddynt am eu cyfraniad a'u ffyddlondeb i deulu ein heglwys.

Croeso

Mae Rhian Llewelyn Jones yn nain unwaith eto. Ganwyd Ffion Gwenllian yn blentyn cyntaf i Huw ac Eira Llewelyn Jones ar Awst 9fed. Mae Huw ac Eira wrth eu boddau – er eu bod wedi blino'n lân! Llongyfarchiadau iddynt.

Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau allanol ond yn enwedig i Lawrence o Bridgenorth, nai bach Nerys Jones (ŵyr Beryl ei chwaer), sydd yn bwriadu astudio economeg ym Mhrifysgol Warwick ar ôl cael canlyniadau rhagorol o 4 A* yn ei Lefel A. Rhagorol, Lawrence!

Eglwys Agored

Diolch i'r gwirfoddolwyr sydd yn rhannu'r rota ar gyfer agor a chau adeilad yr eglwys, yn enwedig drwy gydol mis Medi pan fydd CADW, gwasanaeth gwarchod amgylchedd

Ymddeoliad

Mae Mrs Linda Evans, Penrhyn Cottage wedi cyhoeddi ei bod yn ymddeol o'i swydd fel Pennaeth Ysgol Hiracl ym Mangor.

hanesyddol Cymru, yn cynnal ei Fis Treftadaeth blyneddol. Mae disgrifiad a llun o St Tegai i weld ar wefan CADW.

Gwasanaethau Arbennig yn y Dyfodol

Sefydlu y Parch. Sara Roberts fel Arweinydd Bro Ogwen.

Braf yw cyhoeddi penodiad y Parch. Sara Roberts fel ein Harweinydd Bro Newydd. Mae hi eisoes wedi ymgymryd â'i swydd sef cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys ym Mro Ogwen. Cynhelir ei sefydliad swyddogol yn Eglwys Glanogwen ar Fedi 29ain.

Gwasanaeth Unedig ym mis Hydref

Ar Hydref 11eg fe ddaw y 6 eglwys ynghyd yn Eglwys Glanogwen am 10.00 y bore i addoli Duw o dan arweiniad Esgob Newydd Bangor, y Tra Pharchedig Ddr Manon Ceridwen James. Dim gwasanaeth yn St Tegai. Gweler rota Hydref.

Gwasanaethau Diolchgarwch St Tegai ac Ysgol Llandygái ym mis Hydref i'w cadarnhau yn y rhifyn nesaf. Bydd y manylion ar gael ym mhorth yr eglwys ac yn eglwys eraill Bro Ogwen o ganol Fedi ymlaen.

Gwasanaethau Arferol ym mis Medi

Ar y Sul

Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwys Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

Ar Ddydd Mercher

Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

Manylion Cyswllt

Y Parch Sara Roberts yw ein Harweinydd Bro newydd. Gallwch gysylltu â hi drwy SaraRoberts@churchinwales.org.uk.

Dechreuodd yn yr ysgol yn 1992 fel athrawes. Mae hi wedi treulio llawer o flynyddoedd Hapus iawn yno, ac yn gadael gyda llawer o atgofion melys. Mwynha dy ymddeoliad Linda.

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinnel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.



 Bethesda 01248 600 045

 bethesda@cljonesltd.co.uk

Mynydd Llandygái

Iola Wyn, 2 Bryniau Terrace 07774543095

Gwerthiant yn Arafon, Mynydd Llandygái

Dymuna Llais Ogwan ddiolch i Mrs Rhianwen Roberts o 14 Arafon am ei gwasanaeth a'i chyfraniad wrth werthu'r Llais yn Arafon dros y 30 mlynedd diwethaf. Gwerthfawrogn y cymorth a geir gan ein holl ddosbarthwyr a gwerthwyr.

Teyrnged

Er Cof Am Ein Brawd Annwyl, Myrddin Griffith

Heddiw rydym yn ffarwelio â'n brawd annwyl, Myrddin Griffith, mab i Idwal Griffith a Mary Gweneth Griffith. Mae'n anodd rhoi mewn geiriau faint yr oedd Myrddin yn ei olygu i ni, fel teulu ac fel brawd.

Cafodd Myrddin ei eni i'n teulu, ac o oedran ifanc iawn roedd ganddo gymeriad hollol unigryw. Roedd yn rhywun oedd yn caru bywyd, yn caru cael hwyl ac, yn bwysicaf oll, yn caru bod yng nghwmni pobl. Creodd atgofion ble bynnag yr aeth, a'r atgofion hynny yw'r hyn y byddwn yn gafael ynddynt nawr.

Roedd ganddo lawer o ddiddordebau drwy gydol ei fywyd. Roedd yn caru pêl-droed ac yn mwynhau cadw'n heini, ac roedd bob amser yn rhywun oedd yn barod i roi cynnig ar bethau a dysgu rhywbeth newydd. Roedd ganddo hefyd ochr anturus iawn. Treuliodd gyfnod yn yr RAF, profiad a ddaeth yn rhan bwysig o'i fywyd.

Yn ddiweddarach, aeth Myrddin i'r coleg yng Nghaerdydd i astudio electroneg. Yno y cyfarfu â'i wraig, Marilyn, ac oddi yno y dechreuodd pennod newydd a phwysig iawn yn ei fywyd.

Gyda'i gilydd, sefydlodd Myrddin a Marilyn eu cartref a'u teulu yng Nghwmbrân, gan adeiladu bywyd llawn cariad ac atgofion. Daeth Myrddin yn dad i ddau fab, Paul, sydd bellach yn byw yn Llundain, a David, sydd bellach yn byw yn Awstralia. Roedd bod yn dad yn rhan mor bwysig o'i fywyd, a bydd ei gariad a'i falchder tuag at ei ddau fab yn parhau am byth.

Roedd Myrddin hefyd yn hynod ymarferol ac yn weithgar. Aeth ymlaen i weithio ym maes electroneg ac roedd yn falch o'r hyn a wnaeth. Roedd ganddo feddwl craff ac roedd yn rhywun a allai roi cynnig ar bron unrhyw beth. Os oedd rhywbeth angen ei drwsio neu ei ddatrys, ef yn aml oedd y person y byddai pobl yn troi ato.



Myrddin Griffiths

Un o'r atgofion sy'n dangos yn berffaith y math o berson oedd Myrddin yw'r stori am y llesiant a adeiladodd ef ac Arthur Jos. Gyda'u dwylo eu hunain, fe wnaethant adeiladu dam bach a greodd le i blant chwarae a chael antur.

Ond hyd heddiw, mae plant yn mynd yno i chwarae – gan fwynhau'r un lle a greodd Myrddin ac Arthur Jos flynyddoedd yn ôl. Mae rhywbeth hyfryd iawn yn hynny. Mae rhan fach o Myrddin yn dal i fyw yn y lle hwnnw, yn y chwerthin a'r atgofion sy'n cael eu creu yno gan blant hyd heddiw.

Ac efallai mai dyna un o'r pethau mwyaf arbennig y gall unrhyw un ei adael ar ôl – rhywbeth sy'n parhau i ddod â hapusrwydd i eraill, hyd yn oed ar ôl iddynt fynd.

Ond y tu hwnt i'r holl bethau hynny, ein brawd ni oedd e.

Roedd yn ddoniol, yn garedig ei galon ac, rwy'n siŵr, ychydig bach yn ddireidus ar adegau. Roedd ganddo ei ffordd ei hun o wneud pethau, a'r pethau bach hynny yn union yw'r pethau y byddwn yn eu colli fwyaf.

Mae cymaint o atgofion y gallem sôn amdanynt heddiw – y chwerthin, y sgysiau, y teithiau allan, yr achlysuron teuluol a'r holl eiliadau cyffredin hynny sydd, wrth edrych yn ôl nawr, mewn gwirionedd yn rhai o'r eiliadau mwyaf gwerthfawr.

Mae colli brawd yn gadael bwlch na ellir byth ei lenwi'n llwyr. Byddwn yn gweld eisiau ei weld, clywed ei lais a gwybod ei fod yno. Ond byddwn yn ei gario gyda ni ym



Math Roberts

Ras y Mynydd

Cynhaliwyd Ras y Mynydd ar 26 Awst. Y pedwar cyntaf oedd;1. Math Roberts. 2. Owain H Williams. 3. Ian Edwards. 4. Callum O'Donnell. Llongyfarchiadau i Math Roberts ar ei fuddugoliaeth ac i'r tri arall ar eu camp.

mhopeth a wnawn.

Byddwn yn cofio'r person oedd Myrddin, yr atgofion a roddodd i ni, y bywyd a adeiladodd gyda Marilyn, y cariad a roddodd i'w feibion, Paul a David, a'r cariad a rannwyd gennym fel teulu.

Mae ei fywyd wedi dod i ben, ond nid yw'r atgofion wedi dod i ben. Bydd Myrddin yn parhau i fyw yn ein straeon, yn ein chwerthin, yn ein hatgofion ac yn y lleoedd a adawodd ei ôl ynddynt.

Gorffwys yn dawel, ein brawd annwyl, Myrddin.

Byddi bob amser yn cael dy garu, bob amser yn cael dy gofio, ac fe fyddi am byth â lle arbennig yn ein calonnau.

Cysga'n dawel, Myrddin.

Cyngor Cymuned Llandygái

Yn ein cyfarfod misol a gynhaliwyd nos lau 16 Gorffennaf yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygái, cafodd y Cyng. Sian Beidas ei hethol fel Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2026-27 ac etholwyd y Cyng. Bethan Roberts fel Is-gadeirydd. Diolchwyd i'r Cyng. Mary Hayes am arwain y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn falch iawn bod y cais cynllunio ar gyfer Siop Tregarth

wedi ei gymeradwyo. Edrychwn ymlaen i groesawu Ram a Sara i gymuned Tregarth ac yn dymuno bob llwyddiant iddynt.

Newyddion Mynydd Llandygái yn y Llais. Rydym yn ceisio dod o hyd i berson yng nghymuned Mynydd a fyddai'n fodlon casglu straeon y pentref a'u hanfon yn fisol i Laís Ogwan. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, gyda thîm Llais Ogwan os oes gennych ddiddordeb. Diolch yn fawr.

YSGOL TREGARTH

Prynhawn o hwyl i'r Meithrin

Cafodd y Dosbarth Meithrin brynhawn o hwyl ddiwedd y tymor i ddathlu diwedd eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Daeth 'Mwnici Bach' draw i'r ysgol gydag offer chwarae ac roedd sŵn chwerthin mawr i'w glywed drwy'r prynhawn. Cafwyd picnic bach a hufen iâ ar ddiwedd y prynhawn.

Prynhawn blasu i'r Meithrin

Cyn diwedd y tymor, cawsom gyfle i gyfarfod y plant bach sydd yn cychwyn gyda ni yn y Dosbarth Meithrin ym mis Medi a'u rhieni. Roedd yn braf iawn cael eu croesawu i'r ysgol ac roedd pawb wedi mwynhau'r prynhawn blasu a chael dod i adnabod ei gilydd.

Mabolgampau

Bu cryn gystadlu ar gae chwarae'r pentref yn ystod ein mabolgampau. Roedd yna amrywiaeth o gystadlaethau i bawb o'r meithrin i flwyddyn 6 heb sôn am y rhieni! Roedd yn braf gweld pawb yn cystadlu a chynrychioli eu tai ond yn fwy na hynny, yn mwynhau. Yn dilyn y mabolgampau, cafwyd ffair haf lwyddiannus yn y ganolfan wedi ei threfnu gan y gymdeithas rhieni ac athrawon a diolch iddynt unwaith eto am y gwaith trefnu ac i'r rhieni am eu cefnogaeth yn y ffair. Diolch yn fawr iawn hefyd i bwyllgor y Ganolfan am gael defnyddio'r cae a'r ganolfan yn ystod y prynhawn.



Profiad gwaith

Roedd yn braf iawn cael croesawu criw o ddisgyblion atom ar brofiad gwaith ddiwedd y tymor, a nifer ohonynt yn gyn-ddisgyblion. Diolch i Erin, Ella, Catrin, Eban a Jac am eu cymorth yn ystod yr wythnos a phob lwc yn y dyfodol i chi.

Llongyfarchiadau

Rydym fel ysgol bob amser yn falch iawn o glywed am lwyddiant ein cyn-ddisgyblion. Cafodd gwaith celf dau o'n cyn-ddisgyblion talentog, sef Barnaby a Cushla, eu harddangos yn Y Lle Celf yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ond, yn ogystal â hyn, mae'r ddau wedi derbyn ysgoloriaeth i artist ifanc – Barnaby y llynedd a Cushla eleni. Pob lwc i'r ddau ohonoch. Mae gennych ddyfodol disglair o'ch blaenau.



Trip Knowsley a Pharc Sipsi, Bontnewydd

Cafodd dosbarthiadau Y Garn ac Yr Elen ddiwrnod cofiadwy iawn ym mharc saffari Knowsley. Roedd pawb wedi llwyr fwynhau'r ymweliad a chyfarfod y gwahanol anifeiliaid, yn arbennig y daith yn y bws mini er mwyn cyfarfod y babŵns!

I'r Parc Sipsi yn y Bontnewydd aeth dosbarth Elidir Fawr ac roedden nhw hefyd wedi cael diwrnod i'r brenin yn chwarae a mwynhau gyda'u ffrindiau.

Roedd dosbarth Yr Aran eisoes wedi bod yn Gelli Gyffwrdd.

Rhaid diolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu rhodd tuag at gostau'r triplau diwedd flwyddyn. Yn yr un modd, diolch yn fawr iawn i'r criw gweithgar am eu cefnogaeth i'r ysgol drwy gydol y flwyddyn ac am drefnu digwyddiadau i godi arian er lles y plant.

Ffarwelio

Blwyddyn 6

Mae diwedd y flwyddyn bob amser yn gyfnod trist wrth i ni ffarwelio gyda nifer o wahanol bobl. Yn gyntaf, rhaid dymuno'n dda i griw arbennig blwyddyn 6 sydd yn trosglwyddo i ysgolion Dyffryn Ogwen a Thryfan. Mae'r plant wedi bod yn griw arbennig iawn - yn weithgar, annwyl, llawn hwyl a bob amser yn barod i roi eu gorau ym mhob agwedd o fywyd ysgol. Diolch i chi am fod yn sêr a phob lwc i chi yn yr ysgol uwchradd. Cofiwch mai plant Tregarth fyddwch chi am byth!

Miss Roberts

Roeddem hefyd yn ffarwelio gyda Miss

Beth Roberts sydd wedi bod yng ngofal blwyddyn 2 a 3 am flwyddyn. Diolch i Miss Roberts am ei gwaith caled yn ystod y flwyddyn ac am roi profiadau arbennig i'r plant. Pob lwc i chi yn eich swydd newydd yn Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl.

Mr Roberts

Yn yr un modd, roedd diwedd y tymor yn amser i ni ffarwelio gyda Mr Carwyn Roberts wrth iddo dderbyn swydd barhaol yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth, Penarth. Bydd colled mawr ar ôl Mr Roberts a bydd pawb yn siŵr o gofio ei angerdd tuag at chwaraeon a'i frwdfrydedd wrth sicrhau cyfle i'r plant gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau chwaraeon. Pob lwc, Mr Roberts, a diolch i chi.

Mr Edwards

Ac yn olaf, roedd diwedd y tymor yn amser trist iawn wrth i ni ffarwelio gyda Mr Gareth Edwards, ein pennaeth. Bu Mr Edwards gyda ni ers tair mlynedd a bu'n weithgar iawn yn ystod y cyfnod yma ac yn sicr mae wedi gadael ei stamp ar yr ysgol. Roedd bob amser yn awyddus iawn i roi profiadau gwerthfawr a diddorol i'r plant ac eisiau'r gorau i bawb bob amser. Hefyd, byddwn yn siŵr o gofio ei waith caled yn sefydlu gardd goffa'r ysgol ymysg nifer o brosiectau eraill. Mae pawb yn Nhregarth yn dymuno'r gorau i chi yn eich swydd newydd yn Ysgol Bontnewydd ac eisiau diolch o waelod calon i chi am bopeth dros y dair blynedd ddiwethaf. Diolch, Mr Edwards, a phob hapusrwydd i chi.

Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwan?

Mair Griffiths
mairpenybryn@gmail.com
01248 352966

Pen-blwydd
Pob dymuniad da i Lee Eccles, Bro Infryn a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn 50 oed ym mis Awst.

Yn yr Ysbyty
Pob dymuniad da am adferiad buan i Mrs Elizabeth Evans, 39 Cae Garnedd, Penrhosgarnedd (gynt o Fferm Penhower, Caerhun). Bu yn Ysbyty Gwynedd am ychydig wythnosau ac mae

nawr wedi symud i Ysbyty Alltwen, Tremadog. Mae Mrs Evans yn cael y Llais bob mis ac yn mwynhaugwneud y croesair. Pen-blwydd Hapus a chofion cynnes hefyd ar ei eich ben-blwydd ar 20 Medi!

Bingo
Bydd y Bingo Bach yn aildddechrau ar 25 Medi am 7yh wedi seibiant dros yr haf. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at y Gwasanaethau Brys. Gwerthfawrogir unrhyw gyfraniadau tuag at wobrau'r

Bingo, y Raffl neu'r Tombola. Edrychwn ymlaen at noson o hwyl. Dewch yn llw!

Clwb Bore Sadwrn
Mae Clwb newydd sbon wedi dechrau dros yr haf yn y Ganolfan rhwng 10.00 - 12.00yb ar fore Sadwrn. Syniad Shelley Griffiths oedd hwn i gael pobol y pentref at ei gilydd i gymdeithasu dros baned a chacen a chael rhywun i roi sgwrs neu arddangos. Mae'r Clwb yn argoeli'n dda. Beth am droi i mewn ryw fore Sadwrn i gael blas?

Cylch Glasingfryn
Wedi sbel bach dros yr haf bydd y Cylch yn aildddechrau ar 9 Medi pan ddaw Ian Jones atom i roi sgwrs ar 'Tywys gyda'r Deillion'. Yna ar 14 Hydref cawn ddiweddariad ar 'Ail-Ddatblygu'r Amgueddfa Llechi yn Llanberis' gyda Cadi Iolen. Mae pob cyfarfod yn dechrau am 2.00 ym y Ganolfan. Edrychwn ymlaen i groesawu aelodau hen a newydd i'r Cylch.



Sioe Môn
Llongyfarchiadau i Lydia Griffiths, Caer Wredog, Waen Wen ar ddod yn gyntaf gyda Cholage yn Sioe Môn eleni. 'Roedd Lydia wedi gwneud Collage o ffabrig o'i cheffyl hardd. Da iawn ti, Lydia!



Llwyddiant yn yr Almaen
Llongyfarchiadau mawr i Griff Roberts, 3 Bro Infryn ar ennill dwy fedal aur ac un arian yng Nghystadleuaeth Kickboxing y Byd ym Merlin, Yr Almaen yn ystod mis Awst. Mae Griff yn aelod o 'Y Dog House' ym Mangor ble mae'n cael ei hyfforddi. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda. Mae wedi ymddangos ar raglen Heno ar S4C yn sôn am ei brofiad bythgofiadwy yn ennill y medalau yn yr Almaen. Pob dymuniad da i ti, Griff, i'r dyfodol ac edrychwn ymlaen at glywed am fwy o dy lwyddiannau.



Arddangosfa Arlunio
Eto eleni cynhaliwyd arddangosfa lwyddianus flynyddol Grŵp Arlunio Glasingfryn yn y Ganolfanar 20, 21 a 22 Awst. Wyth aelod sydd i'r Grŵp ar hyn o bryd ond oherwyd yr arddangosfa mae nifer wedi datgan diddordeb mewn ymaelodi. Unwaith eto yr oedd safon gwyh i'r lluniau a ddangoswyd a rheini mewn sawl cyfrwng, megis dyfrliw, oel, pastel ac acrylig. Y mae llwyddiant y Grŵp yn seiliedig ar y ffordd yr ydym yn gweithredu. Daw tiwtor, Chris Hull, atom ar y dydd Gwener cyntaf o bob mis i gynnig cyngor a thrwy hynny,

hyfforddiant. Y mae pob aelod yn gwneud ei waith ei hun ac yn datblygu hynny drwy gyngor. Nid ydym yn gweithredu fel un dosbarth a phawb yn gwneud yr un peth. Bydd Chris yn helpu pob lefel o allu o'r cychwyn ymlaen. Beth sydd yn werth ei gofio os ydych yn ymaelodi, yw fod pob un o'r aelodau wedi cychwyn yn yr un modd!
Felly os hoffech ymaelodi dowch draw i Ganolfan Glasingfryn ar fore Gwener rhwng 10.00yb - 12.00 ym neu gallwch gysylltu efo James Griffiths ar 01248352966 neu Gwyn Burgess ar 07766499555.


Dyffryn Ogwen a Phortmeirion

Cynhaliwyd Gŵyl Portmeirion ar Faes Castell Deudraeth ar 22 Awst fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant y pentref nodedig, ac roedd 9Bach ymhlith y perfformwyr a oedd yn difyrru'r gynulleidfa niferus.

Mae gan Fethesda gysylltiad â Phortmeirion gan mai Gwynedd, mab Derfel a Menna Roberts (Carneddi), yw'r Pen Garddwr a Rheolwr Stad, a Llio Medi, merch Emlyn ac Eleri Williams (Llanllechid), yw'r Rheolwr Refeniw.

Côr y Penrhyn

gydag Alun Davies ac aelodau o'r côr



Teyrnged i John Gwilym Owen gan Emyr Roberts

Gwilym a minnau

Mewn sawl ffordd, roedd Gwilym a minnau'n eithaf gwahanol. Yn gorfforol, roedd Gwilym yn ddyn mawr ei gorff, tra fy mod innau'n llawer mwy crynol! Roedd ein gyrfaedd a'n cefndiroedd hefyd yn wahanol. Roedd Gwilym yn gyfreithiwr, yn ysgolhaig ac yn Uwch Ddarlithydd, tra fy mod innau'n wyddonydd.

Ac yna roedd pêl-droed. Roedd Gwilym yn gefnogwr brwd o Everton, tra fy mod innau'n cefnogi'r cochion – y tîm arall o ddinas Lerpwl. Felly, roedd o leiaf un pwnc lle'r oedd yn amlwg nad oeddem yn mynd i gytuno!

Ganwyd Gwilym yn Lloegr, tra ganwyd minnau ym Mangor. O ran cymeriad, roedd Gwilym bron bob amser yn bwyllog, yn ddoeth ac yn ystyriol – rhywun a fyddai'n meddwl cyn siarad. Roeddwn innau, efallai, ychydig yn fwy byrbwyll.

Roedd ein ffydd hefyd yn wahanol. Roedd y ffydd Gristnogol yn rhan bwysig iawn o fywyd Gwilym. Roedd yn ddiagon yng Nghapel Emaus ym Mangor, ac roedd ei ffydd yn rhan annatod o'r dyn yr oedd. Yn fy achos innau, mae fy ffydd wedi bod yn fwy ansicr.

Felly, o edrych ar yr holl wahaniaethau hynny, mae'n ddigon rhyfedd ein bod wedi cyd-dynnu cystal. Ond dyna, efallai, yw harddwch gwir gyfeillgarwch. Nid oes angen i bobl fod yn debyg i'w gilydd. Yr hyn oedd gennym oedd parch, ymddiriedaeth, hiwmor ac, yn syml, hoffter o gwmni ein gilydd. Daeth y cyfeillgarwch drwy'r côr, ond tyfodd i fod yn rhywbeth llawer mwy na hynny.

Gwilym a Chôr y Penrhyn

Ni ellir sôn am Gwilym heb sôn am ei gyfraniad i Gôr y Penrhyn. Bu'n aelod ffyddlon o'r côr, yn aelod o adran y tenoriaid ail, a chyn hynny'n aelod uchel ei barch o Gôr y Traeth. Roedd ei gyfraniad yn fwy na dim ond ychwanegu ei lais at yr adran. Roedd yn rhan o hanes, traddodiad a chymdeithas y côr. Yn ystod y misoedd diwethaf cyn ei farwolaeth, gwnaeth waith arbennig o werthfawr wrth ysgrifennu hanes Côr y Penrhyn, gan barhau â gwaith y diweddar Elfed Jones. Casglodd atgofion, digwyddiadau a hanes y côr ynghyd a'u troi'n gofnod gwerthfawr ar gyfer y dyfodol. Cafodd Gwilym ddilêit a boddhad mawr wrth gwblhau'r gwaith. Roedd hynny'n dweud llawer am ei barch at hanes, ei ddiddordeb mewn pobl a'i awydd i sicrhau nad oedd atgofion pwysig yn cael eu colli. Yn briodol iawn, anrhydeddodd Côr y Penrhyn Gwilym drwy roi aelodaeth anrhydeddus iddo yn ddiweddar.

Mae ei gysylltiad â'r côr hefyd yn parhau



John Gwilym Owen

drwy ei fab, Gwyn Owen. Mae Gwyn yn drwmpedwr proffesiynol ac yn Associate Principal 3rd Trumpet gyda Cherddorfa BBC Philharmonic ym Manceinion. Mae wedi rhannu llwyfan gyda'r côr ar nifer o achlysuron, gan gynnwys cynhyrchiad CD, Noson Lawen S4C ac, yn fwy diweddar, yr Ŵyl Gymreig yng Ngogledd America yn Ottawa y llynedd. Rwy'n siŵr bod y perfformiadau hynny wedi bod yn destun balchder mawr i Gwilym.

Cyfreithiwr, ysgolhaig a mentor

Roedd gyrfa Gwilym yn un hynod ddiddorol. Dechreuodd fel cyfreithiwr, gan arbenigo ym maes cyfraith eiddo, cyn troi at y byd academiaidd a dod yn Uwch Ddarlithydd yn Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor. Bu'n arbenigo ym meysydd ecwiti, cyfraith tir a hanes cyfreithiol, ac roedd ganddo feddwl miniog a chwilfrydedd deallusol a barhaodd gydol ei fywyd. Bu hefyd yn Ddirprwy Uchel Siryf Gwynedd. Roedd yn arbennig o frwdfrydig ynghylch y berthynas rhwng Ysgol y Gyfraith Bangor ac Ysgol y Gyfraith Prifysgol Toulouse yn Ffrainc.

Yn ddiweddar, dyfarnwyd iddo'r anrhydedd o fod yn Ddarlennydd er Anrhydedd gan Brifysgol Bangor. Ac yn hynod briodol, Dr Hayley Roberts, un a fu'n gyn-ddisgybl i Gwilym, yw Pennaeth Ysgol y Gyfraith. Ond efallai mai ei waith gyda myfyrwyr oedd

ymhlith y pethau yr oedd fwyaf balch ohono. Roedd yn fentor a thiwtor rhagorol, rhyw fath o 'ewythr gofidiau' i'w fyfyrwyr – yn eu hannog, yn gwrandao arnynt ac yn eu mentora. Roedd y myfyrwyr yn ei adnabod yn annwyl fel 'Uncle G'.

Gwilym a'i deulu

Y tu hwnt i'r swyddi a'r anrhydeddau, roedd Gwilym yn ŵr, yn dad, yn fab ac yn frawd. Roedd yn ŵr i Helen ac yn dad i Manon a Gwyn, ac roedd yn hynod falch o'u cyflawniadau ac yn eu cefnogi'n llawn wrth iddynt ddatblygu yn eu priod yrfaedd. Mae gennym ddywediad Cymraeg, 'Wedi pasio yn uchel', ac mae'r geiriau hynny'n berthnasol iawn i Manon a Gwyn ill dau. Roedd Gwilym hefyd yn fab annwyl i Mrs Heulwen Bott ac yn frawd i Sian. Yn y cyfnod anodd hwn, mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd at Helen, Manon a Gwyn, Mrs Heulwen Bott a Sian, ynghyd â phawb arall a oedd yn agos ato.

Cofio Gwilym

Yn y pen draw, nid y teitlau na'r swyddi yw'r pethau sy'n diffinio Gwilym i'r rhai a'i hadnabu. Bydd rhai yn ei gofio fel cyfreithiwr ac ysgolhaig o safon. Bydd eraill yn ei gofio fel athro, mentor neu 'Uncle G'. Bydd aelodau'r côr yn ei gofio fel tenor, cyd-gorwr a rhan bwysig o gymdeithas Côr y Penrhyn.

A bydd ei ffrindiau yn cofio'r pethau llai swyddogol: y sgysiau, yr hiwmor, y dadleuon, y pêl-droed, yr ymarferion a'r cyngherddau. Roedd Gwilym a minnau'n wahanol iawn mewn sawl ffordd. Ac eto, rywsut, daethom yn ffrindiau da iawn. Efallai mai dyna un o'r pethau mwyaf gwerthfawr y mae cyfeillgarwch yn ei ddysgu inni: nad oes rhaid i bobl fod yn debyg i'w gilydd er mwyn rhannu rhywbeth pwysig.

Roedd Gwilym yn ddyn â'i feddwl ei hun, ei ddiddordebau eang a'i ffordd unigryw o edrych ar y byd. Ond roedd hefyd yn ddyn caredig, deallus, doniol a hael ei amser a'i gyfeillgarwch. Bydd ei gyfraniad i Gôr y Penrhyn, ei waith academiaidd, ei ymroddiad i'w deulu a'r cyfeillgarwch a roddodd i gynifer ohonom yn rhan o'r etifeddiaeth y mae'n ei gadael ar ein holau.

Bydd ei gof yn parhau yn y côr, yn y gymdeithas ac, yn fwy na dim, yng nghalonau'r rhai a gafodd y fraint o'i adnabod.

Diolch, Gwilym, am dy gyfeillgarwch ac am dy gwmni. A diolch am y fraint o dy adnabod. Bydd y cof amdanat gyda ni am amser hir iawn.



Coeden Corn Carw

Dyma llwyn pur cyffredin, go helaeth ei faint, efo blodau trawiadol o ran eu ffurf a'u lliwiau. Mae'r coesynnau hirion, efo'u dail main, hir, yn ymestyn i arddangos y blodau. Does dim rhyfedd iddo gael yr enw coeden corn carw gan fod y blodau bychain yn ffurfio clwstwr trwchus fel côn hir nid annhebyg i gorn anifail. Beth am y gair 'coeden' yn yr enw? Mae ystyr 'coeden' yn cynnwys llwyn, ac mae'r enwau coed rhosod, coed cwsberis a choed llus yn enghreifftiau.

Mae gan y planhigyn hwn enwau eraill – cynffon las (sy'n cyfeirio at y blodau sydd efo gwahanol arlliwiau o las); coeden fêl (o achos bod oglau mêl ar y blodau); a'r enw yn y de yw cwt yr oen, sef cynffon yr oen. *Buddleja* neu *buddleia* yw'r enw ar y llwyn yn Saesneg, a chafodd ei enw ar ôl Adam Buddle, botanegydd a rheithor o Sais, a hynny ar awgrym William Houston, botanegydd o'r Alban, a anfonodd y planhigion cyntaf o'r Caribî i Loegr oddeutu 1730. Enw arall gan y Saeson ar y llwyn yw *butterfly bush* oherwydd bod y clystyrau blodau'n fawr ac felly'n arbennig o ddeniadol i loynnod byw yn chwilio am neithdar, eu prif fwyd. Bydd hefyd yn tynnu gwyfynnod a gwenyn ato.

Lliwiau'r blodau yw gogoniant y goeden corn carw. Mae i'r rhywogaethau amrywiaeth helaeth o liwiau, ynghyd ag arlliwiau a chymysgedd ohonynt – piws, porffor, glas, lelog, pinc, coch, aur, oren a melyn. Ceir blodau gwynion hefyd. Bydd y llwyn yn blodeuo rhwng mis Mai a mis Hydref. Oherwydd gwychder y blodau, meithrinwyd corblanhigion, sef fersiynau bychain, a daethant yn hynod boblogaidd i'w plannu ar hyd forderi gerddi.

Mae'r llwyn yn blanhigyn cynhenid ar bedwar cyfandir. Ceir dros 60 o rywogaethau drwy America o daleithiau deheuol UDA i dde Chile,



efo rhywogaethau eraill yn Affrica, a rhannau o Asia. Y rhywogaeth fwyaf poblogaidd o'r rhai a feithrinwyd ar gyfer gerddi yw'r *buddleja davidii*. Cafodd y rhywogaeth benodol hon ei chyflwyno i wledydd Prydain o ganolbarth Tsieina yn yr 1890au, a chafodd ei henwi ar ôl Père Armand David, naturiaethwr o Wlad y Basg a oedd yn gweithio fel cenhadwr ymhlith y Tsieineaid.

Yn digwydd bod, mae'r rhywogaeth hon yn un ymledol ei natur, a buan iawn drwy wasgaru ei hadau yn eang y llwyddodd i feddiannu sawl llecyn. Enillodd ei phlwy' mewn gwrychoedd rhwng coed drain, llwyni a mieri yn ogystal ag ar safleoedd ôl-ddiwydiannol, yn enwedig hen iardiau. Mae ei wreiddiau'n gryf fel gwreiddiau coeden ac maent yn medru gwrthio drwy rwbwl a thrwy graciau mewn hen adeiladwaith. Mewn llefydd o'r fath caiff lonydd i dyfu'n ddrysi trwchus. Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi ei fod o wedi cael tyfiant neilltuol o dda yn ystod cyfnodau poeth y misoedd diwethaf yma, ac mae o'n amlwg drwy'r ardal.



Yn dilyn yr erthygl ar y creŷr glas yn y rhifyn diwethaf, diolch i Gareth a Beryl Llwyd am anfon y llun isod a dynnwyd yn ddiweddar ganddynt o grêyr glas yr ochr isaf i Bont Ogwen.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

Aduniad Ysgol Dyffryn Ogwen 2026

Cynhelir yr aduniad eleni eto yng Nghlwb Rygbi Bethesda nos Wener, Hydref 2il. Gellir ymgynnull o 7pm ymlaen. Fel yn y blynyddoedd cynharach, estynnir croeso i gyn-ddisgyblion o 70 oed ymlaen.

Bydd adloniant o ryw awr o hyd wedi ei drefnu. Hefyd cynhelir raffl. Os oes unrhyw un am gyfrannu gwobr i'r raffl yna croeso i'w gyflwyno ar y noson. Bydd unrhyw elw o'r noson yn cael ei roddi i goffrau'r ysgol.

Ar nos Wener, hyd at 8pm, mae'r clwb yn cynnig bargaen bwyd ble

gellir prynu pryd i ddau berson am £12. Gan fod y fargen yma yn boblogaidd, gofynnir i unrhyw un sydd am fanteisio i gysylltu â Wayne Eccles yn y clwb i drefnu amser o flaen llaw. (07553093178).

Fe fydd yr adroddiad yma yn ymddangos ym mhapurau bro Llais Ogwan, Eco'r Wyddfa a'r Goriad. Yn amlwg mae nifer o gyn-ddisgyblion bellach yn byw y tu allan i ddalgylch y papurau hyn, felly gobeithio y gallwch gysylltu yn uniongyrchol â rhai o'ch cyfoedion fydd â diddordeb.

Edrychwn ymlaen at noson lwyddiannus arall o sgwrs a chofio am gyfoedion o'n cyfnodau yn yr ysgol arbennig hon.

YSGOL ABERCASEG AC YSGOL PEN-Y-BRYN

Heddlu Bach, Blwyddyn 6

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd wedi cwblhau rhaglen saith wythnos yr Heddlu Bach yn llwyddiannus gyda PC Tamzin Williams a SCCH Eirwen Williams.

Mwynhaodd y disgyblion gael cipolwg y tu ôl i'r llenni ar waith yr heddlu, gan gwrdd â swyddogion sy'n gwasanaethu'r gymuned, arbenigwyr dronau a thrinwyr cŵn yr heddlu.

Yn ogystal, llwyddodd eu gwaith caled i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y gymuned drwy fynd i'r afael â phroblemau ysbwriel a baw cŵn.

Da iawn chi, blant! Mae'n braf gweld bod ambell un eisoes wedi

dweud eu bod yn awyddus i ddilyn gyrfa ym maes plismona yn y dyfodol, wedi'u hysbrydoli gan y profiad gwerthfawr a'r gwaith pwysig hwn.

Ffair Fusnes Glyder

Ar ôl yr holl gyffro, a'r holl waith caled o gynllunio a pharatoi, cyrhaeddodd y diwrnod mawr – Ffair Fusnes Glyder. Roedd y neuadd dan ei sang, gyda disgyblion, rhieni a disgyblion Ysgol Abercaseg wedi dod i gefnogi'r fenter a gwario ar y cynhyrchion a wnaed gan y plant.

Llwyddodd y disgyblion i wneud elw, ac roedd yn braf eu clywed yn trafod syniadau am sut i'w wario ar ddiwedd tymor prysur yr haf.

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad. Ymlaen â ni at ein prosiectau nesaf ym mis Medi!

Pontio

Cafodd holl ddisgyblion yr ysgol brynhawn arbennig wrth ymweld â sioe gerdd Dosbarth Miss Prydderch ym Mhontio yn ddiweddar. Roedd y plant wedi mwynhau darllen y llyfr yn ystod y tymor, felly roedd gweld y stori'n dod yn fyw ar y llwyfan yn brofiad gwych. Yn sicr, ni wnaeth y perfformiad siomi, a mwynhaodd pawb bob eiliad ohono.

Cyngerdd Ffarwel Blwyddyn 6

Cawsom noson i'w chofio unwaith eto eleni yn Neuadd Ogwen wrth ddangos ein ffilm ffarwel, Ta-ta am Awstralia. Ar ôl wythnosau o ffilmio a llawer o waith caled gan y staff a'r disgyblion, cafwyd perfformiad arbennig wrth i'r ffilm gael ei

dangos gyda'r nos yn Neuadd Ogwen. Blwyddyn 6 oedd sêr y ffilm wrth gwrs, ond am y tro cyntaf erioed roedd pob disgybl yn yr ysgol yn ymddangos yn y ffilm, a bu hynny'n brofiad gwerthfawr ac unigryw iddynt oll.

Roedd Neuadd Ogwen yn orlawn, gyda rhieni, teuluoedd, staff a'r llywodraethwyr wedi dod ynghyd i gefnogi'r noson arbennig hon. Ar ddiwedd y ffilm, cynhaliwyd seremoni wobrwyo lle cafwyd cyfle i ddathlu a chydabod doniau ein disgyblion, yn ogystal â dymuno'n dda i'n disgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt gychwyn ar bennod newydd yn yr ysgol uwchradd.

Diolch yn fawr i Dilwyn a thîm Neuadd Ogwen am y croeso cynnes a'r gefnogaeth. Diolch arbennig hefyd i staff Blwyddyn 6 am eu hymroddiad a'u gwaith diflino i greu ffilm o safon uchel – atgof arbennig a fydd yn cael ei drysori am flynyddoedd i ddod.

Steve Eaves

A RHAI POBL



★ NEUADD BENTREF RHIWLAS ★

3YDD HYDREF 2026	AM 8.00YH
DRYSAU'N AGOR	AM 7.00YH

MYNEDIAD TRWY DOCYN YN UNIG!

BAR A SNACS AR GAEL

I ARCHEBU TOCYNNAU CYSYLLTWCŴ Â GILL NEU SHARON AR ÔL 6.00YH

e-bost: gigs@neuaddrhiwlas.cymru

Ffôn/Teest/Whatsapp: 07392 859828 neu 07908 060535

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Nodir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Noson Allan Night Out



Trefnwyr angladdau annibynnol yn cefnogi teuluoedd ar draws Gogledd Cymru i greu angladdau traddodiadol, gwyrdd, unigryw a phwrrpasol.

Swyddfeydd ym Mangor a Bethesda.

Gwasanaeth amlosgiad uniongyrchol ar gael gydag arch, amlosgiad lleol, dychwelyd llwch a ffioedd proffesiynol wedi'u cynnwys £1,375

133 Stryd Fawr, Bangor + 57 Stryd Fawr, Bethesda
01248 351631 posi@enfysfunerals.co.uk



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda, Gwynedd LL57 3NE

ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

MODURON PANDY Cyf.



MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

Iaith Pesda

gan Mary Jones

Ydach chi'n cofio'r rhestr eiriau yng ngholofn mis Gorffennaf i ddisgrifio'r tywydd poeth? Rwy'n siŵr ein bod wedi gallu defnyddio pob un gair yn ystod y misoedd poeth a phawb yn dweud "Mae ishio glaw!"

Felly dyma ni ar ddiwedd yr haf unwaith eto. Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc dywedodd rhywun wrthyf, "Dyma'r olaf rŵan tan y Dolig." Mae meddwl am Ddolg rŵan rhy fuan o lawer i mi. Er hynny, mae gen i ambell glwb er mwyn cynilo pres at yr amser. Am ryw reswm fe elwid hwn yn **Glwb Distaw**. Dw i'n cofio un o'r fath yn y capel ers talwm er mwyn casglu pres i fynd ar y trip Ysgol Sul i'r Rhyl neu Butlins. Oes gennych chi 'glwb distaw' gydag unrhyw gymdeithas neu yn y gwaith?

Ambell i Air Swp

Dyma ichi air bach diddorol rydan ni'n ei ddefnyddio fo'n bur amal.

swp. Pentwr, clwstwr ydy hwn. "Maen nhw wedi gadael eu sbwriel yn swp wrth y llyn." Mae o hefyd yn ffordd o ddisgrifio'r corff yn un pentwr – "Mi fentrais i ar y rhew ond syrthiais i'n swp ar lawr."

syypn. Clwstwr bychan ydy hwn – "Mi ddois i â syypn o rug adra o'r mynydd ond wnaeth oSwp ddim gwreiddio yn yr ardd acw."

swp sâl. Bod yn sâl iawn ydy ystyr hwn. Mae o hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddweud bod awydd mawr ar rywun eisio rhywbeth – "Mi ro'dd hi'n swp sâl isio bod yn gadeirydd y pwyllgor."

blino'n swp. Y corff wedi ymlâdd ac wedi sigo – "Fedra" i ddim symud ar ôl cerddad yn y gwres 'ma. Dw 'di blino'n swp."

randibw. Twrw, miri swnllyd, weithiau ar ôl gor-yfed, ydy hyn – "Ew, ro'dd hi'n randibw yn y dafarn neithiwr!"

fflewyn. Dyma'r enw ar y darn main o bren sy'n mynd o dan y croen yn ddamweiniol ('splinter' yn Saesneg). Diolch i Tudor Coed Hywel am y gair hwn a dderbyniais drwy ffrind.

nos Sadwrn bach. Cyfeirio at nos Fercher mae'r ymadrodd hwn. Gan fod y noson yng nghanol yr wythnos, byddai'n cael ei hystyried yn noson i fynd allan, boed i grwydro pan fyddai'n braf, neu fynd am beint neu i'r pictiwr.

powlio. Gwthio ydy hwn – "Ew, ma 'na waith powlio'r goats 'ma i fyny'r gelltydd!"

cwrbits. Crasfa - "Ers talwm mi fasa hogyn wedi cael cwrbits gin ei dad am fod yn ddig'wilydd."

clun iâr. Ergyd galed ar y glun neu'r fforddwyd gan ben-glin rhywun arall wrth

chwarae pêl-droed neu wrth i hogia chwarae'n wirion. Peth poenus iawn.

ar y clwt; ar y plwy'. Yn ddi-waith. Os 'ar y plwy', byddech yn cael rhyw gymaint o gymorth ariannol at eich byw.

pobl / bobol. Dywedwn 'bobol annwyl' neu 'bobl bach' fel ymateb pan fyddwn wedi dychryn neu'n methu credu. Mae'n cael ei ddefnyddio yng nghân Bob Roberts, Tai'r Felin 'Mari fach fy nghariad' – "Bobol annwyl, choeliwch chi byth!"

slaes. "Slaes ar dy ben ôl fasa ti di gael ers talwm am fod mor ddig'wilydd." Gair arall am daro gyda chledr y llaw.

rhoi'r gora' iddi. Rhoi i fyny ar dasg; peidio ei gwblhau. Dweud wrth rywun am beidio "Rho'r gora i fwydro 'mhen i."

clobyn / cloban. (Diolch i Gwen Davies am y gair.) Gair am anghenfil ydy clobyn yn y geiriadur. Nid ydy'n gyfarwydd i mi ond ar y llaw arall mae 'cloban' neu yn amlach 'hen globan' fel disgrifiad digon anffafriol o ferch. Dyma i chi linell o gân, nad wyf yn siŵr ble clywais hi, 'Unwaith bûm yn caru dynas, cloban felan fawr anghynnas.'

Ac ar y nodyn yna, tan y mis nesa cofiwch gysylltu:

Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda
LL57 3NN, 07443047642,
maryeds@hotmail.co.uk

JOHN ROBERTS

**Paentiwr
Papurwr**

Symudol:
07747 628650
Ffôn: 01248 600995



**J. TEMPLE MORRIS
A'I FAB**

**Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.**

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com



CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau,
bachau, twll llythyrau ac unedau
gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653



Mark Davies

0 7 4 4 7 8 0 4 1 1 0



Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru



Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01286) 672437	Pwllheli (01758) 703000	

**Oes gennych chi
ddiddordeb mewn hysbysebu
yn Llais Ogwan?**

Mary Jones maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

Diolch
Er cof annwyl am Brenda Lilian Williams (gynt o Fethesda) a hunodd ar 16 Gorffennaf yn 86 mlwydd oed. Dymuna ei phlant Carys, Delyth, Graham a Dilwen, a’r teulu, ddiolch am eich cefnogaeth a’ch cydymdeimlad yn ystod ein profedigaeth. Mae eich geiriau a’ch presenoldeb wedi bod yn gysur i ni. Mewn cyfnod o alar rydych wedi dangos cariad, tosturi a chryfder. Byddwn yn ddiolchgar am eich caredigrwydd am byth.

Bydd yr arian a gesglir er cof am mam yn ystod ein profedigaeth yn cael ei roi i elusennau lleol oedd yn agos iawn at ei chalon. Diolch yn fawr unwaith eto.
Cydymdeimlwn â chi yn eich profedigaeth ynghyd â’i theulu ym Methesda sef Derek a Sylvia Griffiths, Rhos y Coed, brawd a chwaer yng nghyfraith ac Ann Thomas, Maes y Garnedd, chwaer. Cafodd Brenda, Ann, Derek a’r diweddar Dilwyn eu magu ym Mryntirion a byddai Brenda yn ymwelydd cyson â chaffi Coed y Brenin er mwyn cyfarfod â’i ffrindiau.

Mrs Marilyn Jones
Hoffai Gillian a Scott ddiolch yn fawr i bawb am y caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ddiweddar ar yr achlysur trist o golli mam a nain arbennig sef Marilyn Jones, Glanffrydlas. Diolch hefyd am y rhoddion er cof amdani tuag at Hospis Dewi Sant.
Cydymdeimlwn â chi gyd fel teulu.

Mrs Eluned Davies, Bethel
Dymuna Brian, ‘Garth’, 2 Glan Llys Bethel a’i ferch, Sioned Quirk, a’r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod yr wythnosau wedi colli Eluned.
Diolch i Hogia’r Bonc am gymeryd rhan yn y gwasanaeth yng Nghapel Cysegr, Bethel. Diolch hefyd am y cyfraniadau tuag at Hafan Dewi Sant, lle bu Eluned yn mynychu a chael gofal arbennig yn ystod ei salwch.

Mrs Glenys Morgan
Ar y cyntaf o fis Awst bu farw Glenys Morgan, Maes Coetmor. Roedd yn fam i Dewi a Sharon, Elen a Richard ac Anwen a Stephen, yn nain hoffus i Owain, Harry, Tomos, Harri, Daniel a Dafydd, ac yn chwaer i John Gwyn, Caerdydd, a’r diweddar Gareth. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

Gwen Roberts
Cydymdeimlwn â theulu Gwen Roberts a fu farw Awst 8fed, sef ei phartner Huw Lloyd, ei merch Llinos, a’i meibion Huw Gareth a Derwyn Llyr, a’r holl deulu yn eu profedigaeth. Hefyd Margaret, Susan, Helen, Derfel a’u teuluoedd o golli eu chwaer.

Prawf Gyrru
Llongyfarchiadau i Efa Jukes, Ystad Coetmor ar lwyddo yn ei phrawf gyrru. Da iawn ti, Efa.

Symud cartref
Yn ystod gwyliau’r haf bu Carwyn ac Elin a’r hogia Jac ac Owi yn brysur iawn yn symud i’w cartref newydd yn Erw Las. Croeso mawr i chi, er nad ydych yn ddieithr o gwbl i Erw Las!
Pob hwyl i Elisabeth a Gareth ac Elan, y cyn-breswylwyr, yn eu cartref newydd ym Mhenrhosgarnedd.

Priodi
Llongyfarchiadau mawr i Diane a Gwyn Morris ar achlysur eu priodas ddiweddd Gorffennaf. Cafwyd diwrnod bendigedig yn dathlu yng Ngwesty’r Deganwy Quay. Dymuna Diane a Gwyn ddiolch am yr holl ddymuniadau da, cardiau ac anrhegion ar achlysur eu priodas.
Llongyfarchiadau i Dylan a Katelynnne Robertson, Abercaseg ar achlysur eu priodas yn Henblas Ynys Môn ym mis Awst.

Adref o’r ysbyty
Wedi cyfnod pur faith yn yr ysbyty, da yw gweld Dilwyn Owen wedi dod adref. Gwellhad buan i chi Dilwyn.
Da deall bod Vera Morgan, Maes y Garnedd adref o’r ysbyty hefyd. Cofion atoch.
Cofion at bawb o’r ardal sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda eu hiechyd.

Cywiriadau
Yn Newyddion Bethesda fis Gorffennaf nid oedd enw Harry wedi ei gynnwys yn y rhestr cydymdeimlo gyda theulu Heather Thomas. Roedd Harry yn ŵyr i Heather.

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Cara Aston, Erw Las ac Eryl Morris, Mynydd Llandygái ar eu dyweddiad.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys, 5 Garneddwen am ennill Tlws Cwmni Ffilmiau’r Nant ar gyfer cystadleuydd yn rhoi rhesymau drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghystadleuaeth barnu defaid yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.
Daeth hefyd yn ail yng nghystadleuaeth ‘Barnu Defaid Suffolk 18 oed a lau’. Mae Cian yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen ac roedd yn cynrychioli rhanbath ffermwyr ifanc Eryri yn y sioe eleni.
Pob lwc yn dy swydd newydd, fel Arwerthwr Dan Hyfforddiant gyda chwmni Morgan Evans yn Gaerwen.

Blodwen Cavenagh
Yn dawl ym Mhlas Ogwen, Bethesda ar 22 Awst, 2026, yn 96 mlwydd oed. Mam arbennig Pat a’i gŵr John a’r diweddar William, Nain gariadus Danny, Jamie, Vincent, Chris, Paul, Claire a Sarah, Hen Nain, chwaer a ffrind annwyl i lawer. Bydd colled enfawr ar ei hôl.
Angladd brynhawn Gwener, 25 Medi, 2026. Gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Glanogwen, Bethesda am 1.30 o’r gloch, yna i ddilyn yn Amlosgfa Bangor am 2.30 o’r gloch.
Derbynnir rhoddion yn lle blodau yn ddiolchgar tuag at Eglwys Glanogwen lle fu Blodwen yn aelod ffyddlon am flynyddoedd maith (sieciau yn daladwy i Angladdau Enfys Funerals – Donation account os dymunir rhoi rhodd drwy siec, diolch).
Ymholiadau i Angladdau Enfys Funerals Ltd, 133 High St, Bangor, LL57 1NT – 01248 351631 www.enfysfunerals.co.uk

Cyngor Cymuned Bethesda

Mae’n bleser gennym gyhoeddi bod pryniant y tir yn y Gerlan ar gyfer creu maes parcio wedi ei gwblhau o’r diwedd. Gobeithio y bydd cychwyn ar y gwaith paratoi yn digwydd yn fuan.

Fel rhan o brosiect Llewyrch o’r Llechi bydd meinciau newydd yn cael eu gosod o gwmpas y plwy’, a hefyd bydd llechi yn cael eu gosod ar safle Llys Dafydd. Bydd y llechi hyn yn arddangos geiriau ac iaith Pesda!

Hoffai aelodau’r Cyngor ddiolch i Barry Roberts, Swyddog

Cynnal Partneriaeth Ogwen, am ei waith diflino yn edrych ar ôl gerddi cymunedol Bethesda, a hefyd am ei waith casglu sbwriel. Diolch yn fawr iawn i ti, Barry!

Yn ein cyfarfod misol, mae’r Cyngor wedi arwyddo ‘Addewid Cwrteisi a Pharch’ fel rhan o ymgyrch Gymru gyfan, gydag Un Llais Cymru. Drwy lofnodi’r Addewid, mae ein cyngor yn dangos ei ymrwymiad i drin cynghorwyr, clerod, gweithwyr, aelodau’r cyhoedd, cynrychiolwyr sefydliadau partner a gwirfoddolwyr gyda chwarteisi a pharch yn eu rolau.

Yr Eglwys Unedig

Oedfaon

Mae ein diolch yn fawr i Mrs Eirlys Williams, a'n Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, am yr oedfaon a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf – un ohonynt yn undebol yn y Cysegr, Bethel. Yn anffodus, methodd Y Parchedig Huw Pritchard a chyrraedd Bethesda i'n gwasanaethu, oherwydd problemau difrifol gyda thraffig wrth geisio croesi'r Fennai. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni yn y dyfodol agos, Mr Pritchard!

Gwyliau

Gobeithio bod pob un ohonoch wedi mwynhau'r seibiant dros fis Awst, ac wedi cael bendith o'r tywydd eithriadol o braf a gawsom, er ei fod yn ormod i rai ohonom! Edrychwn ymlaen at ailafael ynddi ym mis Medi.

Gwresogyddion newydd

Bellach mae gennym system newydd sbon yn cynhesu'r Capel, a bydd yn braf cael bod yn ddiddos yn ystod misoedd y gaeaf. Diolch yn fawr i Gwmni Jones & Whitehead am osod y cyfan.

Bore Coffi

Cynhelir ein Bore Coffi McMillan blynyddol yn y Festri Isaf fore Sadwrn, Medi19, rhwng 10 a 12 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at dderbyn y gefnogaeth hael arferol gan y Gymuned.

Llongyfarchiadau

Dymunwn longyfarch pob un â chysylltiadau gyda'r Eglwys Unedig ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU a Lefel A, gan ddymuno'r gorau iddynt, pa bynnag lwybr y byddant yn ei ddilyn.

Talwrn y Beirdd

Braf oedd gweld un o'n haelodau ifanc, sef Buddug Watcyn Roberts, yn ennill gyda Thîm buddugol y Talwrn yn Eisteddfod y Garreg Las – da iawn ti, Buddug!

Cyhoeddiadau'r Sul

Medi 6: Undebol yng Nghaeathro (2)
Medi 13: Y Parchedig Eric Jones (10)
Medi 20: Y Gweinidog (10)
Medi 27: Y Parchedig Mererid Mair (5)



Cwmni Triongl yn gweithio yn Festri Fach y Capel.

Ffilmio

Mae'n siwr bod amryw ohonoch wedi bod yn dyfalu beth sydd yn digwydd yn y Capel ar hyn o bryd. Wel, mae cwmni Triongl yn ffilmio 'Pijin' – addasiad o nofel Alys Conran sydd yn dilyn cyfeillgarwch plentyndod Pijin ac Iola. Mae'r ddau yn dianc rhag realiti bywyd drwy fyw mewn byd o ddychymyg ac adrodd storïau – byd sydd yn y pen draw yn troi'n hollol afreolus, gyda chanlyniadau trychinebus.

Mae'r Cwmni yn defnyddio pob rhan o'r Capel, a hynny am saith wythnos, ond gyda chydweithrediad parod y cynhyrchwyr, ni fydd tarfu ar weithgareddau arferol y Capel. Felly, cofiwch am y baned ar fore Iau, fel arfer, a hefyd yr oedfaon sydd i ddod.

Gorffwysfan

Adroddiad Cyfarfod Blynyddol y Clwb

Dydd Llun, Gorffennaf 20fed, 2026 am 11:00 y.b. Cadeirydd y Cyfarfod: Rhiannon Efans.

Yn bresennol: Helen Williams, Babs Hardy, Brenda Hughes, Sylvia Griffiths, Gaynor Davies, Maureen Roberts, Jannette, Ann Edwards, Joe Hughes, Rita Thomas, Linda Hughes, Emyr Robert, Joan Bullock, Jean Brown, Alan Davies, O. J. Evans, Rhiannon Efans ac Ann Davies.

Cafwyd gair o groeso gan y cadeirydd a dymunodd yn dda a chofion y clwb at yr aelodau sy'n sâl – Joseph Dignam, Val Amos, Christine Jones, Edric Jones ac Ann Williams.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Edric Jones, Peter Thomas, Arwel Hughes ac Ann Fôn Williams.

Bu i'r clwb golli dau gyn-aelod yn ddiweddar sef Brenda Williams, Deiniolen

a Marilyn Jones, Glanffrydlas. Estynnodd y cadeirydd gydymdeimlad â'r ddau deulu a safodd yr aelodau i ddangos eu cydymdeimlad. Cydymdeimlwyd hefyd gydag Ann Thomas Maes y Garnedd a Derek a Sylvia Griffiths, Rhos y Coed ar golli eu chwaer, Brenda, gyda Gillian a Scott Glanffrydlas ar golli mam a nain, a Gwenda Bowen Gerlan ar golli chwaer yng nghyfraith, sef Marilyn; hefyd Gaynor ac Eifion Davies ar golli chwaer, Heather.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol dydd Llun, Gorffennaf 21ain 2025. Doedd dim materion i'w codi.

Adroddiad y Trysorydd, Helen Williams
Adroddwyd bod sefyllfa ariannol y clwb yn foddhaol iawn, gyda diolch i Helen am drefnu raffl bob gwibdaith.

Er gwybodaeth

Mae cinio Nadolig wedi ei drefnu yng Nghlwb Rygbi Bethesda ddydd Mercher, Rhagfyr 9fed 2026.

Gwybdaith nesaf – dydd Mercher, Awst 12fed.
Ethol Swyddogion
Cadeirydd: Rhiannon Efans
Is-gadeirydd: Alan Davies
Trysorydd: Helen Williams
Ysgrifennydd: Joe Hughes
Unrhyw fater arall
Penderfynwyd rhoi rhodd o £50 i Gapel Jerusalem

Gwibaith Awst

Ar ddydd Mercher, Awst 12fed aeth yr aelodau ar wibdaith. Yn gyntaf aethom i weld 'Byd Mary Jones' yn y Bala ac yna am banad o goffi. Ar y trênn bach a ni wedyn o'r Bala i Lanuwchllyn. Cawsom ginio yn y Bala cyn mynd ymlaen ar ymweliad â Phorthmadog. Roedd yn ddiwrnod poeth ac roedd pawb wedi mwynhau. Bydd ein gwibdaith nesaf ddydd Mercher, Medi 23ain yn mynd i Erddi Morton a Chroesoswallt. Byddwn yn cychwyn o'r Stryd Fawr am 8:30.

Eglwys Crist, Glanogwen

Apêl

Mae cronfa'r Apel yn dal ymlaen, gan fod costau cynyddol yn dod i law (e.e. costau pensaer i wneud archwiliad rheolaidd ar y tŵr.) Diolch am unrhyw roddion – gwerthfawrogir pob un yn fawr. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r Apêl, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiw'n yn arbennig am y rhai sy'n colli dod i'r eglwys i ymuno yn y gwasanaethau a'r cyfeillgarwch. Cofiwch roi gwybodaeth i'r Parchedig Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

Colli aelodau

Cafwyd nifer o brofedigaethau yn yr ardal dros yr haf, aelodau o'r eglwys ymysg eraill. Bu farw Marilyn Jones yn ddisymwyth yn ystod mis Gorffennaf, priod Bill, mam annwyl i Gill, a nain i Scott. Roedd Marilyn yn chwarae i Gilbert ac yn ferch i Mr a Mrs Bowen, teulu

a fu'n ffyddlon a gweithgar yng Nglanogwen dros flynyddoedd lawer.

Aelod arall fu'n weithgar ar hyd ei hoes oedd Glenys Morgan, Maes Coetmor, ac anodd meddwl am Glanogwen heb gofio am Glenys. Bu'n aelod ffyddlon o'r gwahanol gymdeithasau, yn helpu rhedeg yr Ysgol Sul, ar bwyllgor y Carnifal, ac yn fwy diweddar yn Warden ac yn flaenllaw yn cadw'r drysau ar agor a chodi arian i hybu'r achos.

Bu farw Glenys ar y 1af o Awst yn Hosbis Dewi Sant, wedi gwaeledd creulon a ddioddefodd yn ddewr a di-gŵyn. Cafodd angladd teilwng iawn â'r eglwys yn orlawn a rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent Coetmor gyda'i gŵr, Tommy. Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda John Gwyn, Dewi a Sharon, Elen a Richard, Anwen a Stephen a'r wyrion i gyd, Bydd hiraeth mawr ar ei hôl.

Ar ddiwedd mis Awst daeth y neges am farwolaeth Mrs Blodwen Cavanagh yn 95 oed, gynt o Maes y Garnedd ac yn ddiweddar ym Mhlas Ogwen. Bu Blodwen yn aelod ffyddlon o Eglwys Glanogwen hyd nes pallodd ei iechyd, yn gymeriad hoffus a pharod ei gwên. Cydymdeimlwn â'i merch, Pat, a'r teulu i gyd.

Gwasanaethau Glanogwen

Dyma drefn gwasanaethau yng Nglanogwen am y dyfodol:

Suliau 1af a'r 3ydd yn y mis: - Cymun Bendigaid am 11am.

Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis am 10.30am - Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i'r Parchedig Sara Roberts ar ei phenodiad yn Arweinydd a Ficer Bro Ogwen, yn dilyn ymddeoliad y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd. Mae Sara wedi hen 'ennill ei phlwyf' fel Caplan Bro dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi arfer bellach ar gynnal y gwasanaethau yn y chwe eglwys fydd dan ei gofal.

Pob bendith ar ei gwaith newydd. Cynhelir Gwasanaeth Trwyddedu Sara fel Ficer yn Eglwys

Glanogwen nos Fawrth, Medi 29 am 7 yr hwyr. Croeso i bawb i'r gwasanaeth, a bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn

Manylion cyswllt

Gellir cysylltu â'r Parchedig Sara Roberts ar 07967652981, neu gyda'r Archddiacon, y Parchedig David Parry, ar davidparry@churchinwales.org.uk, os am drefnu bedydd neu angladd.

Gair neu ddau John Pritchard

GOLWG FFYDD

Nid bob dydd y gweddiwn amdano. Ac nid bob tro y diolchwn amdano. A dweud y gwir, rydym yn llawer mwy tueddol i gwyno amdano. Ond wedi'r wythnosau o sychder a gawsom yr haf hwn roedd y rhan fwyaf ohonom yn cydnabod yr angen am law ac yn falch o'i weld at ddiwedd Awst. Wn i ddim faint ohono sydd ei angen eto i wneud iawn o fath am sychder y misoedd diwethaf, ond o leiaf mae'r gerddi a'r caeau'n dechrau glasu wedi melynder anarferol yr haf. Wn i ddim chwaith faint o weddiö yn hytrach na dyheu am law a gafwyd yn ein plith, ond mae'n siŵr fod llawer ohonom wedi diolch i Dduw wedi iddo ddod.

Cawsom ein hatgoffa o'r newydd o'n dibyniaeth ar drefn ryfeddol byd natur, ac ar batrwm rheolaidd y tymhorau. I bobl ffydd, mae'r holl drefn honno yn ei lle oherwydd Duw'r Creawdwr. Y Duw Mawr

a luniodd y cyfan sy'n dal i gynnal y cyfan o ddydd i ddydd ac o dymor i dymor. Rhywsut, trwy gymhlethdod a chywreinrwydd y deddfau natur a osodwyd ganddo, mae'n dal i gynnal y byd rhyfeddol a greodd, a ninnau felly yn y pen draw yn ddibynol arno.

Mor rhyfeddol a phrydferth y byd a greodd Duw ar ein cyfer. A golwg ffydd sy'n ein hatgoffa o ddau beth pwysig yn y datganiad syml hwnnw: mai Duw a greodd y byd, a'i fod wedi ei greu ar ein cyfer fel dynoliaeth. Nid rhan fechan a dinod o'r hyn a greodd Duw yw'r ddynoliaeth; nid un ymhlith llawer o rywogaethau cyfartal, ond uchafbwynt a choron y greadigaeth. A golwg ffydd a ddaw â'r argyhoeddiad – o ddechreuadau'r Beibl – bod cyfrifoldeb am warchod y greadigaeth wedi ei

roi ar ysgwyddau'r ddynoliaeth honno.

Rhoddwyd i ni fyd, a rhoddwyd anwm hefyd y rheidrwydd i ofalu amdano ac i gydweithio rywsut â Duw i'w warchod ac i werthfawrogi ac iawn ddefnyddio'i adnoddau gwerthfawr.

Ond mae golwg ffydd yn ein hatgoffa hefyd bod ein byd, er ei harddwch a'i gyfoeth a'i ryfeddod, yn amherffaith. Golwg ffydd sy'n dweud wrthym fod yr amherffeithrwydd hwnnw, ynghyd â phob poen a dioddefaint a hagrwyd sy'n rhan o'n bywydau, yn groes i'r hyn a fwriadwyd (ac a fwriedir) gan Dduw. Golwg ffydd sy'n ein galluogi i ddechrau deall – er mor gyfyngedig ac annigonol – y byd dioddefus ac erchyll ag ydyw yn aml.

Galwad i warchod y byd amherffaith hwn a roddwyd i'r ddynoliaeth. A rhan fawr o bryder ein hoes ynghylch bygythion fel newid hinsawdd ydi'r sylweddoliad nad ydym wedi gwneud hynny fel y dylem. Ers degawdau, cafwyd rhybuddion ynglŷn ag effaith posibl ein ffordd o fyw ar yr hinsawdd, ac ar y ddadear ei hunan. Ac mae'r awgrym lleiaf fod a wnelo'r newid hinsawdd hwn â dadmeriad y rhewlif a'r dinistr a'r dioddefaint a'i dilynodd ar y ffin rhwng Nepal a Thibet ddiwedd Awst yn wirioneddol ddychrynlyd.

Gweddiwn dros y bobl a ddioddefodd fwy nag y medrwn ni ddechrau ei ddychmygu; dros bob ymdrech i estyn cymorth dros y dyddiau a'r misoedd a'r blynyddoedd nesaf; a thros ddynoliaeth a byd y mae gorfodaeth arnynt i fynd i'r afael â'r amgylchiadau sy'n medru esgor ar argyfwng a dioddefaint mor hunllefus.

JOHN PRITCHARD



Proffesiynol, diogel
a chyfrinachol

LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

Caren Brown
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Ymddeoliad hapus

Ymddeoliad hapus iawn i Beti Rhys, Bryn Caseg ar ôl gyrfa dysgu hir a llewyrchus. Dw i'n siŵr bod diolch nifer o deuluoedd a disgyblion yn fawr i ti Beti, a bydd colled mawr ar dy ôl. Pob dymuniad da i ti ar y bennod nesaf yn dy fywyd – dwi'n siŵr bod gen ti ddigon o gynlluniau!

Dymuniadau am ymddeoliad hapus i Sian a Tony Owen yng Nghiltwillan. Mae Sian eisoes wedi ymddeol fel athrawes Saesneg yn Ysgol Dyffryn Ogwen, a bydd bwlch yn yr adran a'r ysgol ar ôl dy holl waith caled ac ymroddiad. Mae Tony hefyd ar fin ymddeol ar ôl gweithio efo'r bwrdd nwy ers tua 40 mlynedd. Dw i'n siŵr bod gennych gynlluniau i ymlacio a mwynhau'r amser rhydd a bod gennych anturiaethau eraill ar y gweill hefyd.

Cydymdeimlo

Gyrrwn ein cydymdeimlad at Gwenda Bowen, Stryd Hir a'i phlant, Andrew a Rosalind. Bu i Gwenda golli ei chwaer yng nghyfraith, Marilyn Jones, yn frawychus o sydyn ychydig wythnosau nôl. 'Roedd Marilyn wedi ei magu yn Gwernydd ac felly'n ferch o Gerlan yn wreiddiol.

Bu iddynt golli brawd yng nghyfraith Gwenda'n ddiweddar hefyd. 'Roedd Elfed Hughes yn byw yn Amwythig erbyn hyn ac yntau hefyd wedi byw yn y Gwernydd ar un amser. Bydd bwlch mawr ar ôl y ddau. Hoffai Gwenda, Andrew a Rosalind ddiolch am bob neges o gydymdeimlad a chyfeillgarwch yn ystod yr adeg anodd yma.

Pen-blwydd Arbennig

'Roedd 'na ddathlu pen-blwydd arbennig yng Nghiltwillan yn ddiweddar wrth i Fred Doyle droi'n 90. Gobeithio eich bod wedi cael amser da yn dathlu efo teulu a ffrindiau.

Busnes newydd

Un sydd yn mwynhau her a ddim ofn mentro ydi Michelle Florence, Stryd Hir. Does 'na ddim llawer ers iddi gychwyn busnes glanhau newydd ac ar hyn o bryd mae hi wrthi'n dechrau busnes arall - MELA. Gyda help y teulu, mae Michelle ar fin agor siop fach ar dir y teulu ar Allt Glanrafon yn Gerlan. Os oeddach chi'n caru No. 7 Crafts, paratowch am bennod newydd sbon gyda Mela - creadigaethau hyfryd, syniadau newydd, hen ffefrynnau a digon o bethau cyffrous ar y ffordd.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y dudalen Facebook a chadwch lygaid allan am ddiweddariadau, 'sneak peeks' a'r cyhoeddiad mawr am agoriad swyddogol y siop!



Caban Gerlan

Taith Gerdded LleChi LleNi

Ar y 18fed o Orffennaf cawsom daith gerdded ddifyr iawn o Gerlan i Gwm Caseg o dan arweiniad yr hanesydd a thywysydd lleol, Martin Davies. 'Roedd 'na tua 10 ohonom i gyd a chafwyd hanes difyr iawn am yr ardal gan ddychmygu sut y byddai llefydd amrywiol wedi edrych ganrifoedd yn ôl. Diolch i Martin a phawb fu ynghlwm â'r trefniadau o flaen llaw ac ar y diwrnod. Bydd yr wybodaeth a map o'r daith yn cael eu rhannu'n fuan fel bod pobl yn gallu eu dilyn eu hunain. Cadwch lygaid allan ar ein gwefannau cymdeithasol.

Grŵp Gweu

Bydd grŵp gweu Caban Gerlan yn ail ddechrau'n y neuadd ar y 3ydd dydd Llun ym mhob mis. Bydd y grŵp nesaf felly'n cyfarfod ar nos Lun y 21ain o Fedi rhwng 6.30 ac 8.30. Mae 'na groeso cynnes i unrhyw un ddod draw os yn newydd neu'n brofiadol. Dim rhaid i chi ganolbwyntio ar weu yn unig – dewch ag unrhyw grefft sydd o ddiddordeb i chi.

Symud Tŷ

Pob dymuniad da i Buddug, Mark a Thor Humphreys sydd wedi symud o Stryd Hir i Adwy'r Nant. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn eich cartref newydd. Mae Paul a Donna Llechid hefyd wedi symud o Gerlan. Gobeithio y byddwch chi'n setlo yn eich cartref newydd wrth y Stryd Fawr.

Pen-blwydd priodas

Pen-blwydd priodas arbennig iawn i Jez a Hannah Shea, Ffordd Gerlan sydd wedi dathlu 30 mlynedd o briodas yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi cael gwneud rhywbeth arbennig i ddathlu eich priodas berl.

Croeso i'r Gerlan

Croeso mawr i Karen Roberts sydd wedi symud i'w chartref newydd yn Ffordd Gerlan. 'Dan ni'n edrych mlaen i dy weld o gwmpas y pentref ac yn setlo mewn i dy gartref newydd.

Ffilmio yn y pentref

Os ydach chi fel fi wedi darllen Pijin gan Alys Conran ac ella wedi gweld addasiad ohono gan Theatr Cymru, yna mi fyddwch chithau hefyd yn gyffrous iawn o glywed bod 'na ffilm ar ei ffordd. Mae un o'r lleoliadau ffilmio yn Gerlan ac felly bydd 'na dipyn o fynd a dod dros yr wythnosau nesaf. Gan fod Alys yn ferch leol ac wedi byw yn Gerlan am 'chydig flynyddoedd, 'dan ni'n falch iawn ohoni a'r cyswllt yma rhwng y ffilm a'n pentref bach ni!



Caffi Trwsio

Diolch i bawb ddaeth i Gaffi Trwsio'r Caban diwedd Gorffennaf. 'Dan ni'n ddiolchgar iawn i'n gwirfoddolwyr ac yn croesawu unrhyw un sydd yn awyddus i ddod i helpu. Un sydd wedi dechrau dangos diddordeb mewn trwsio ydi Leo. Dyma lun ohono'n helpu Jo i drwsio golau nos Super Mario. Tydi hi byth rhy fuan i feithrin diddordeb a thalent a dw i'n falch o ddeud bod Mario'n gweithio'n berffaith ar ôl ei help! Bydd y Caffi Trwsio nesaf dydd Sul Medi 27ain (11-1pm). Galwch draw am banad!

Codi Arian at Achos Da

Yn Hydref 2025, cafodd Ricky Florence, Stryd Hir ei herio i dyfu ei wallt ac yntau wedi bod yn foel ers 35 mlynedd! Penderfynodd dderbyn y sialens a chafodd ei 'shave' olaf ddiwrnod Nadolig. Y cynllun oedd iddo dyfu ei wallt hyd ddiwedd Mehefin 2026 ac mae'n bleser dweud bod Ricky wedi llwyddo. Llwyddodd hefyd i godi dros £1,000 i Ysbyty Plant Alderay Hay – ysbyty a oedd wedi achub bywyd ei fab flynyddoedd yn gynharach. Hoffai Ricky ddiolch i bawb sydd wedi ei gefnogi a'i noddi. Llongyfarchiadau mawr i ti, Ricky, – dwi'n siŵr dy fod yn falch dy fod yn edrych mwy fel chdi dy hun erbyn hyn!



Golffiwr o fri

Llongyfarchiadau i Janet Davies am ddod yn drydedd yn ei hadran yng nghystadleuaeth Golff Cymru, a gynhaliwyd ar gwrs heriol Clwb Golff Llandrindod ddechrau mis Awst. Hon oedd y rownd derfynol yn dilyn dwy is-gystadleuaeth, un yng Nghlwb Golff Caernarfon ac yna gystadleuaeth rhanbarth y Gogledd yng Nghlwb Golff Pwllheli. 'Roedd oddeutu 20 o gystadleuwyr ar y diwrnod yn Llandrindod gyda golffwyr o bob rhan o Gymru yn cystadlu, felly dipyn o her, a chlod, i Janet a deud y lleiaf.

Dyma chi rai o'r ffeithiau difyr a ddaeth i'r feiwrth i Cynrig ddilyn trywydd yr ymchwil:

- Erbyn dechrau'r 20au datblygodd cynlluniau pendant i godi neuadd bwrpasol am fod angen mwy o le.
- Chwarelwyr oedd mwyafrif aelodau'r pwyllgor rheoli.
- Robert Pritchard, Carreg y Gath a'i ddau fab a gafodd y gwaith o godi'r neuadd. Roedd dwy ystafell, un fechan ar gyfer bwrdd biliards ac ystafell dipyn mwy oedd yn cynnwys llwyfan ar gyfer perfformiadau dramatig. Cyflawnwyd y gwaith yn gyflym iawn ac roedd yr adeilad yn barod i'w ddefnyddio cyn diwedd 1926.
- Yr enw a roddwyd ar yr adeilad ar y cychwyn oedd 'Young Men's Institute' ac i nifer o drigolion hynaf Rhiwlas, 'Yr Institute' yw'r enw ar lafar o hyd.
- Gwrthododd pwyllgor 1931 gais i gael dawnys yn y Neuadd a phenderfynodd pwyllgor 1943 roi caniatâd i ddawnsio gwerin ar yr amod fod pawb yn gwisgo 'sand shoes'!
- Ar y dechrau nid oedd merched yn cael bod yn aelodau a bu'n rhaid disgwyl 37 o flynyddoedd cyn dileu'r rheol yma. Cais cyntaf y merched oedd am sinc er mwyn golchi llestri! Ymhen amser daeth merched yn aelodau gwerthfawr o'r pwyllgor rheoli.
- Yn ystod cyfnod y 30au ymwelodd cymaint â 18 cwmni drama â'r Neuadd i berfformio; yn eu plith roedd tri chwmni drama o'r pentref ei hun!
- Bu cyfnod yr Ail Ryfel Byd yn un heriol i'r Neuadd fel i bawb arall gyda sawl aelod o'r pwyllgor wedi gadael i ymuno â'r fyddin. Ymhen amser trefnwyd cyngherddau a dramâu er mwyn cefnogi'r milwyr a chyflwynwyd rhoddion ariannol cyson i filwyr o'r pentref.
- Datblygiad go arwyddocaol yn 1951 fu cynnal noson o 'ddarluniau byw' yn y

Gyda thristwch a chryn sioc y clywsom yn y pentref am farw sydyn, annisgwyl Mark Greenall, Braich, ar Awst 12 yn 51 oed. Fe dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn dioddef â phroblemau iechyd meddwl dwys, a bu ei rieni, Ray a Ruth Greenall, yn fawr eu gofal ohono. Roedd yn mwynhau crwydro'r wlad o'i gwmpas a phan yn iau byddai wrth ei fodd yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau awyr agored, a dringo yn arbennig. Bu'n gwneud gwaith bugeilio i sawl ffermwr lleol yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Ruth a Ray ac at ei frawd, Tom, sydd bellach yn byw ac yn gweithio yn Ffrainc.

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

cynghorydd.
Dafydd
Meurig@
gwynedd.
llyw.cymru



07765
400140

Arllechwedd

cynghorydd.
EinirWyn
Williams@
gwynedd.
llyw.cymru



07747
690456

Gerlan

cynghorydd.
Rheinalt
Puw@
gwynedd.
llyw.cymru



07789
742092

Canol
Bethesda

cynghorydd.
Beca
Roberts@
gwynedd.
llyw.cymru



07436
927237

Tregarth
& Mynydd
Llandygai

cynghorydd.
Paul
Rowlinson@
gwynedd.
llyw.cymru



07949
034967

Rachub

Tafarnau Dyffryn Ogwen (5)

Ty'n Clwt Isaf

Beth am fynd am beint i Dy'n Clwt nos fory?

Un o dafarn dai hynaf ardal Dyffryn Ogwen oedd Ty'n Clwt (Isaf) ar y ffordd dyrpeg nepell o Hendyrpeg a gofrestrwyd gyntaf yn nogfennau'r Alehousekeeper's Recognizances yn 1801.

Un o nodweddion pwysicaf y dafarn oedd ei bod hefyd yn fferm, ac yr oedd y math hwn o gyfuniad yn sail i nifer o dafarn dai'r ffordd fel mewn sawl ardal arall yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r rheswm yn eglur – archebion achlysurol y teithwyr roddodd fodolaeth i'r tafarnau yn y lle cyntaf, yn hytrach na masnach barhaol gyda dwysedd poblogaeth fel yn Stryd Fawr y pentra. Ac felly yr oedd y fferm yn gefn masnachol angenrheidiol i'r dafarn. Hyd yn oed ar Stryd Fawr pentra Bethesda cofnodir yng Nghyfrifiad 1871 fod Elisabeth Williams, gwraig weddw 59 oed a thafarnwraig y Queen's Head, hefyd yn ffermwraig.

Y ffordd dyrpeg felly roddodd fodolaeth i'r dafarn yn y lle cyntaf. Cyn mentro ar gynllunio llwybr ei ffordd bost newydd drwy'r dyffryn yn 1820, astudiodd Thomas Telford lwybr y ffordd dyrpeg yn ofalus wedi dilyn nifer o ymweliadau.

Mae ei adroddiadau am gyflwr y ffordd a'i pheryglon yn wirioneddol arswydus. Mae'n disgrifio y rhan o'r ffordd o'r Felin Fawr i Dinas fel a ganlyn: 'ar y cychwyn mae allt serth a garw yn arwain yn dra afreolaidd hyd at y tollborth yn Hendyrpeg, a thu draw i'r giât mae'r llwybr wedi ei gyfyngu am hanner milltir i silff gul o graig oddeutu 12 troedfedd o led rhwng gwely'r dramffordd uwchlaw a dwensiwn dwfn i'r afon islaw. Mae canllawiau'r ffordd yn eithriadol fregus ar y ddwy ochr'. O'i ddarllen gellir gweld paham y byddai dracht o wirol go gryf pe byddai cyfle i aros yn y dafarn yn angenrheidiol i deithiwr gwan-galon ar ffordd bost gyntefig gyntaf y Tyrpeg drwy Ddyffryn Ogwen. Ond yr oedd cynlluniau gwell ar droed wrth i Telford awdurdodi cynllunio ac adeiladu ffordd ryngwladol gyntaf Prydain i gysylltu Llundain â Dulyn drwy Gaergybi. Ond yr oedd llwybr y ffordd newydd hon, a agorwyd yn 1824 ar ochor ddwyreiniol y dyffryn, yn hepgor yn llwyr leoliad tafarn Ty'n Clwt.

'Roedd colli cefnogaeth teithwyr y ffordd dyrpeg yn sicr yn gnoc i gynhaliadaeth y dafarn er y byddai pentref di-dafarn Tregarth a'r holl ardal gyfagos yn cyfrannu

at ei masnach oherwydd ei lleoliad. Ond yr oedd gan y dafarn hon hefyd achlysuron i'w cofio ar ddyddiau dathlu gŵyl pan gynhelid gornestau a mabolgampau ar ellydd Penygroes a Dôl Fawr Ty'n Clwt. Meddai un disgrifiad: "byddant yn aml yn cicio pêl droed ar y Sabbath, yn curo bandi ac yn dynu'r iâr ar ddol fawr Ty'n Clwt". Adroddir gan lygad dystion y cyfnod y byddai'r-chwareuon hyn yn gorffen yn ddi-feth mewn meddwdod a chwffio afreolus.

Perthyn un nodwedd arbennig i'r dafarn sef, er syndod, iddi oresi fel yr unig dafarn ar dir plwyf Llandygái drwy ran helaethaf o ddegawdau'r 19g hyd at ei chau yn derfynol yn 1888.

Yn cydgerdded â'r gyfres o dafarnau cynnar yr oedd hefyd nifer bychan o enwadau crefyddol yn araf ymsefydlu yn yr ardal. Ar y cychwn, heb adeiladau swyddogol i'w cynnal, golygid mai yng nghartrefi'r ffyddloniaid y cynhelid y gwasanaethau, megis ar gylchdaith o'r Felin Isaf yn Llandygái i Dai'n y Coed, Llanllechid, ac ymlaen i Dal y Braich yn Nant y Benglog. Agorwyd capel gyntaf yr ardal, Capel yr Achub, yn Rachub yn 1793. Chwaraeodd ardal Tregarth hefyd ran flaenllaw yn dwyn crefydd i'r ardal gyda'r gwahanol enwadau yn sefydlu'n answyddogol yn rhai o dyddynnod y gymdogaeth, yr Annibynwyr ym Mherthi Corniog, y Wesleaid ym Mryn Cul a Chaeherfin a'r Methodistiaid yn y Felin Isaf, Llandygái. Sefydlwyd trefn fwy ffurfiol yn Nhregarth pan adeiladwyd Capel Shiloh i enwad y Wesleaid yn 1826 a'i leoli ym Mhen yr Ala, ac yn 1837 sefydlwyd capel Penygroes gan y Methodistiaid Calfaidd a'i godi yn y pegwn gwrthgyferbyniol ar ben y bryn.

Mewn cystadleuaeth lem bu i'r enwadau anghydfurfiol a'r tafarnau, yn eu gwahanol ffyrdd, ddylanwadau'n drwm ar sut fath o gymdeithas oedd i ddatblygu yn Nyffryn Ogwen drwy gydol y 19g.

**John Llywelyn Williams
Idris Lewis
Richard Hughes**



Picnic yn y Parc

Am yr ail flwyddyn yn olynol trefnodd y Cyfeillion sesiwn Picnic yn y Parc ar gae chwarae'r pentref a hynny ar ddydd Sadwrn cyntaf y gwyliau haf. Cafwyd tywydd braf, a throdd nifer dda o bentrefwyr allan i gefnogi. Yn ôl Sharon Griffith o'r Cyfeillion roedd hi'n braf cyfarfod wynebau newydd eto eleni, a gweld ffrindiau a chymdogion yn sgwrsio dros bicnic. Roedd y llinell ar gyfer y fan hufen iâ yn un hir fel y llynedd, ac ymhlith y gemau mwyaf poblogaidd roedd lluchio'r fwyell!"

Diolch unwaith eto i'r Cyfeillion am eu hegri a'u hymroddiad yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau yn y pentref gydol y flwyddyn.



Dathlu ymroddiad cerddorol

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Ieuan Hughes o adran Bas 2 Côr y Penrhyn ar ddathlu 50 mlynedd fel aelod o'r côr yn ddiweddar. Dipyn o ymroddiad! Derbyniodd Ieuan dlws arbennig gan gadeirydd y côr, William Parry, yn eu hymarfer ddiwedd Mehefin i nodi'r garreg filltir nodedig.

Capel Shiloh Newydd Rhiwlas

Dyma fanylion y gwasanaethau a gynhelir ar y Suliau canlynol yn y Neuadd yn ystod yr wythnosau nesaf:

Medi 20: Huw Pritchard, 2 p.m.

Bydd y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnal ar yr amser arferol, sef 10 a.m. -

Medi 27: Dr Ian Morris

Hydref 4: Gwyndaf Jones

Hydref 11 (Diolchgarwch): Dr Huw Tegid Roberts

Croeso cynnes iawn i bawb.

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Gwobr Gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Daeth Meleri Wyn Davies, Hen Gapel Peniel, Llanllechid i'r brig gyda chryn glod yng nghystadleuaeth Casgliad o lên meicro yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro. Roedd 17 wedi cystadlu, a dyma ddywedodd y beirniad, Mared Lewis, am ei gwaith: "Mae pob brawddeg, pob gair, yno i bwrpas, gan greu cyfanwaith sy'n wastad ei safon, ac eto'n ysgrifwrol yn ei gynildeb... Mae'r ysgrifennu'n ymataliol ac yn hynod bweres." Llongyfarchiadau iddi ar ei champ.

Clwb Hanes Rachub

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn cychwyn ar y 30fed o Fedi yn y Clwb Criced am 7 o'r gloch. Yn dilyn darlith arbennig, a gafwyd eisoes ganddo, Mr Dafydd Fôn fydd yno'n trafod mwy ar ddatblygiad Bethesda. Edrychwn ymlaen!

Cydymdeimlad

Pob cydymdeimlad â holl deulu Gwen Roberts (Gwen Amos). Hunodd Gwen yn dawel gyda'i theulu i gyd o'i chwmpas ar 25 Awst 2026, yn Ysbyty Gwynedd.

Gwella Ffordd Henbarc a Llwyn Bleddyn

Bu cryn aflonyddwch yng nhyffiniau Rachub yn ddiweddar, gyda'r gwaith hir-ddisgwyliedig i roi wyneb newydd ar Ffordd Henbarc a Llwyn Bleddyn yn cael ei wneud. Gwelwyd y ffordd ar gau i wahanol gyfeiriad o ddydd i ddydd, a bu rhaid teithio o gwmpas y gwaith i gael i'r pentref, gyda chryn bwysau ar y ffyrdd culion dros y cyfnod. Mae'n braf cael adrodd bod y gwaith bellach wedi ei gwblhau a bod wyneb da ar y ffordd.



Sgwâr Rachub

Clwb Gwau Carmel

Bydd y Clwb Gwau yn aildddechrau ar brynhawn Llun, Medi'r 7fed. Bythefnos ar ôl hynny, mi fydd y Te Bach sy'n agored i bawb.

Cydymdeimlo

Rydan ni'n cydymdeimlo gyda theulu'r ddiweddar Grace Sewell. Bu Grace yn aelod o'r clwb am flynyddoedd. Roedd hi'n hynod o ffyddlon a gweithgar ac mae'r golled yn un fawr inni.

Rydan ni'n anfon ein dymuniadau gorau i Beryl Brown, Marion Sullivan a Millie Jones sydd wedi bod yn symol ar adegau. Rydan ni'n clywed bod y tair ohodyn nhw'n well. Mi fyddwn ni'n falch iawn o gael eu gweld nhw yn bresennol yn y clwb unwaith eto pan fydd yn aildddechrau.

Te Bach

Ysgoldy Carmel ar bnawn Llun, Medi 28ain 2:30 – 4:00. Croeso i bawb.

Capel Carmel

Gwasanaethau

- Medi 20 – Miss Eleri Jones
- Medi 27 – Parchg Dafydd Coetmor Williams
- Hydref 4 – Parchg John Pritchard (Cymun)
- Hydref 18 – Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant a'r leuenctid

Mi gafodd nenfwd y Capel ei beintio yn ystod mis Awst. Daeth yr arian i dalu am y gwaith o gronfa'r chwiorydd sef elw'r Te Bach a rhoddion gan aelodau a chyfeillion at y gronfa. Yn ogystal â'r arian hwnnw, daeth rhodd o gronfa'r Ysgol Sul a'r Capel. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i'r gwaith hwn. Rydan ni'n edrych ymlaen at groesawu Hogia'r Bonc ar Dachwedd y 6ed ac yn ddiolchgar iddyn nhw am gytuno i ddod i gynnal cyngerdd yng nghapel Carmel ar y dyddiad hwnnw.



Peintio nenfwd y capel

Bydd yr Ysgol Sul yn aildddechrau ar Fedi'r 6ed a Chlwb Dwylo Prysar ar nos Wener yr 11eg. Mae croeso arbennig i unrhyw un a fyddai'n hoffi ymuno â ni o'r newydd ar ddechrau'r tymor fel hyn.



Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

CYMDEITHAS BOB OWEN

FFAIR LYFRAU

YSGOL DAVID HUGHES

PORHTHAETHWY

DYDD SADWRN 10 HYDREF
10am – 4pm



MYNEDIAD £1
Pris Llogi Bwrdd £15



Cysyllter â Gwenda Richards
01286 676435 / bryndinas24@gmail.com

Dewch ag arian parod, os gwelwch yn dda



YSGOL LLANLLECHID

Ffarwelio!!

Rydym am fynegi ein gwerthfawrogiad diffuant i Mr Adam am ei wasanaeth a'i waith fel cymhorthydd gyda ni. Drwy gydol ei amser yma, mae wedi dangos lefel uchel o ymrwymiad i gefnogi anghenion amrywiol ein disgyblion, gan sicrhau bod pob un ohonynt yn cael y cyfle gorau i lwyddo. Mae ei agwedd bositif, ei barodrwydd i helpu ym mhob sefyllfa, a'i gydweithrediad agos ag aelodau eraill o'r staff wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r holl gymuned ysgol. Rydym yn dymuno pob dymuniad da iddo i'r dyfodol yn bersonol ac yn broffesiynol.

Sesiynau Drymio

Yn ystod y tymor cafodd y disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn sesiynau drymio bywiog a llawn egni. Dysgodd y plant sgiliau rhythm a chydweithio wrth greu cerddoriaeth gyda'i gilydd. Roedd y sesiynau'n llawn hwyl ac yn ffordd wych o ddatblygu hyder a mwynhad mewn cerddoriaeth.

Ymweliad Blwyddyn 2 ag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen

Cafodd disgyblion Blwyddyn 2 ddiwrnod cofiadwy yn ymweld ag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Mwynhawyd y perfformiadau amrywiol a'r awyrgylch arbennig wrth weld pobl o wahanol wledydd yn dod ynghyd drwy gerddoriaeth a dawns. Roedd y daith yn brofiad gwerthfawr a chyffrous i'r plant.



Animal Encounters

Cawsom ddiwrnod arbennig iawn pan ddaeth Animal Encounters i ymweld â'r ysgol. Cafodd y plant gyfle i weld a dysgu am amrywiaeth o anifeiliaid gan gynnwys ymlusgiaid, crwbanod, nadroedd a phryfed cop. Roedd pawb wrth eu bodd yn cael trin a thrafod yr anifeiliaid yn ddiogel, a dysgu ffeithiau diddorol amdanynt. Roedd yn brofiad addysgol a chyffrous a fwynhawyd gan bawb.



Athletau'r Urdd

Cafodd nifer o ddisgyblion gyfle i gynrychioli'r ysgol yn Athletau'r Urdd. Fe wnaethant gystadlu'n frwd mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau trac a maes, gan ddangos ymrwymiad ac ysbryd chwarae teg. Roedd yn ddiwrnod llawn mwynhad a llwyddiant, a bu'r plant yn llysgenhadon gwyh i'r ysgol.

Mabolgampau

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol mewn tywydd ffafriol, a chafwyd diwrnod llawn hwyl a chystadlu brwd. Cymerodd y plant ran mewn amrywiaeth o rasys a gweithgareddau, gan ddangos brwdfrydedd, penderfyniad ac ysbryd chwarae teg. Roedd yn braf gweld pawb yn mwynhau ac yn cefnogi ei gilydd trwy gydol y dydd.

Ymweliad yr Adran Iau â Pontio

Mwynhaodd disgyblion yr Adran Iau ymweliad â Pontio i weld y sioe Miss Prydderch a Lleidr y Lleisiau. Roedd y perfformiad yn llawn hiwmor, cerddoriaeth a chymeriadau cofiadwy a lwyddodd i ddal dychymyg y gynulleidfa o'r dechrau i'r diwedd. Roedd yn brofiad diwylliannol arbennig a gafodd groeso mawr gan y plant.

Ymweliad â Neuadd Ogwen

Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â Neuadd Ogwen i fwynhau cyngerdd gan Wasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn. Roedd y plant wrth eu

bodd yn gwrando ar amrywiaeth o ddarnau cerddorol ac yn dysgu mwy am offerynnau a pherfformio. Roedd y cyngerdd yn brofiad ysbrydoledig a phleserus i bawb.

Ymweliad ag Ysgol Dyffryn Ogwen

Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 5 yn ymweld ag Ysgol Dyffryn Ogwen fel rhan o weithgareddau pontio'r haf. Cafwyd croeso cynnes a chyfle i gyfarfod staff a disgyblion yr ysgol uwchradd. Helpodd y profiad y plant i deimlo'n fwy hyderus ac edrych ymlaen at y cam nesaf yn eu haddysg.

Gwasanaethau Dosbarth a'r Gwasanaeth Gadael

Roedd gwasanaethau dosbarth y tymor a'r Gwasanaeth Gadael yn achlysuron arbennig iawn. Bu'r plant yn perfformio'n wych ac yn dangos eu talentau a'u cyflawniadau gyda balchder. Hoffem ddiolch yn fawr i'r rhieni a'r teuluoedd am eu cefnogaeth barhaus a'u presenoldeb, a gyfrannodd gymaint at llwyddiant y digwyddiadau hyn.

Carnifal yr Ysgol

Bu'r Carnifal Ysgol eleni yn lliwgar ac yn llwyddiant ysgubol. Dewisodd pob dosbarth wlad wahanol i'w chynrychioli, gan wisgo gwisgoedd trawiadol a dysgu am ddiwylliant, traddodiadau a nodweddion gwledydd o bob cwr o'r byd. Roedd yn ddiwrnod hyfryd, llawn hwyl a dysgu, a chafodd pawb gyfle i ddathlu amrywiaeth ein byd.



Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las, 2026
Llongyfarchiadau i Saul Sherrock, Sling, Tregarth ar ennill y wobr gyntaf ar yr Unawd i Fechgyn dan 19 oed a'r drydedd wobr yng nghystadleuaeth yr Alaw Werin dan 19. Falch iawn o dy lwyddiant, Saul.

Cydymdeimlo
Fel ardal anfonwn ein cydymdeimlad i deulu Margaret Eleri Feaver, Bro Sir Ifor, Tregarth. Bu farw Eleri yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli ar Awst 21 yn 88 oed. Roedd yn wraig i'r diweddar Eddie ac yn fam, nain a hen nain.
Bu farw Glenys Hefina Morgan, 5 Maes Coetmor, Bethesda, ar Awst 1 a chydymdeimlwn gyda'i phlant Dewi, Elen ac Anwen a'r holl deulu yn eu hiraeth. Mae Anwen a'i gŵr, Steven, a'r hogia yn byw yn Hafoty, Braich Talog, ac anfonwn ein cofion atynt ar achlysur mor drist o golli mam a nain annwyl.

Ar Awst 11, bu farw John Gwilym Owen, 9 Tal y Cae, yn ei gartref. Rydym fel ardal yn anfon ein cydymdeimlad gyda Helen, ei briod, a'i blant, Gwyn a Manon, ei fam yn Deganwy a'i chwaer yng Nghaergrawnt, ac â'r holl deulu. Bu ei angladd preifat yn Amlosgfa Bangor ddydd Gwener, Awst 28. Twrna oedd Gwilym wrth ei alwedigaeth a bu am flynyddoedd yn gweithio i amryw o gwmnïau, ond ugain mlynedd yn ôl fe aeth yn ddarlithydd mawr ei edmygedd gan staff a myfyrwyr yn Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor. Trefnwyd noson i'w anrhydeddu am ei waith yn y brifysgol bythefnos cyn iddo farw, a daeth tyrfa fawr o'i deulu, ffrindiau a chymdogion, staff â myfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr i dalu teyrnged haeddianol iddo ym Mangor. Roedd Gwilym yn aelod gwerthfawr o Gôr y Penrhyn a bydd bwlch ar ei ôl ymhlith y cantorion , yr Arweinydd â'r Cyfeilydd.

Nôl i'r Ysgol, Coleg neu Waith
Erbyn hyn mae'n amser hel pac yn ôl i'r ysgol, y coleg neu i'r gwaith wedi'r haf tanbaid gawson ni eleni. Pob hwyl i bob un ohonoch, a chofiwch adael inni wybod am eich hanes.
Mae amryw wedi anfon manylion am eich llwyddiant. Os nad ydych wedi cysylltu eto cofiwch fod digonedd o lo yn Llais Ogwan i gyhoeddi pob newydd.

Llongyfarchiadau i'r canlynol:
Ym Mhrifysgol Bangor bu Cerys Elen, Bethesda yn dilyn cwrs Hanes a llwyddo yn ei harholiadau gradd. Nain a Taid, Ffordd

Cyfeilydd o Dregarth
Braint oedd gwylio'r rhaglen 'The Piano', ar y teledu nos Sul. Gorffennaf 25, ar Sianel 4HD, o orsaf drên Efrog, gan fod bachgen o Dregarth yn ymddangos arni. Dyma raglen oedd yn croesawu rhai i chwarae'r piano ar wahanol orsafoedd trên ym Mhrydain.
Gwilym Gray, Hen Dyrpeg, Tregarth, oedd un o'r rhai oedd yn chwarae'r piano yn yr orsaf, mab Mark Gray a'r diweddar Sara Gray Humphries. Roedd Sara yn un oedd yn creu gemau o aur ac arian cain a bu farw yn frawychus o sydyn yn 2022, a hithau'n fam i bedwar o fechgyn. Roedd Sara yn gyfeilydd gwych ar y piano ac fe etifeddodd Gwilym ei dawn. Nid yn unig mae'n cyfeilio ond mae hefyd yn cyfansoddi cerddoriaeth ac ar y rhaglen fe chwaraeodd ddarn o'i waith ei hun er cof am Sara. Cafodd lwyddiant mawr ac aeth ei enw ymlaen ar gyfer rhaglen gynderfynol y gyfres. Llongyfarchiadau enfawr i ti, Gwilym, am wneud mor ardderchog. Rydym fel ardal yn falch iawn o dy lwyddiant. Cafodd Gwilym ei addysg yn Ysgol Tregarth, Ysgol Dyffryn Ogwen a Phrifysgol Newcastle, a dymunwn y gorau iddo gyda'i yrfa academiaidd i'r dyfodol. Ar derfyn y rhaglen fe ganodd Gwilym a'i ddau frawd sy'n efeilliaid 'Calon Lân' a chael cymeradwyaeth arbennig gan y dyrfa ar yr orsaf yn Efrog!



Tanrhiw, Gwen ac Alwyn Owen, wrth eu bodd.
Bu Łuc Sharrock, mab Ruth ac Andrew o Sling, ym Mhrifysgol St John, Efrog, lle bu'n astudio Ffisiotherapi Gradd 2 a llwyddo yn y pwnc.
Ym Mhrifysgol Lerpwl roedd Llinos Seren Roberts, merch Sioned a Johny Roberts, yn astudio am radd mewn Biocemeg. Yn Llandegfan mae ei chartref, ond daw Sioned o Dregarth. Arthur Williams, Y Garreg Wen, Tal y Cae yn falch iawn o lwyddiant ei wyres.
Mae Non Elen Redvers Jones, Porthaethwy, wedi ennill gradd Dosbarth Cyntaf ym Mhrifysgol y Met yng Nghaerdydd mewn cwrs gradd mewn Chwaraeon. Mae hi'n ferch i Bethan a Dewi, ac mae Nain a Taid Tregarth, Anwen ac Emlyn Thomas, Tre Ceiri, Tal y Cae wrth eu bodd hefo'r newyddion.
Cofiwch adael i ni wybod am fwy o hanesion ein plant ac ieuencid.

Mewn ysbyty
Da clywed fod rhai o gleifion yr ardal yn gwella a rhai ohonynt yn mwynhau bod adra o'r diwedd. Mae Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm; Edward Jones, Dob, a Val Jones, Dob, adra – y tri wedi bod am gyfnodau eitha' hir yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.
Bu merch fach Catrin a Luke, Bro Derfel, Neli Gwen, yn yr ysbyty am gyfnod byr yn dilyn

damwain yn ymwneud â'i llaw. Gobeithio fod y fechan yn gwella erbyn hyn.
Pen-blwydd arbennig
Dathlodd Emlyn Thomas, Tre Ceiri, ei ben-blwydd yn 80 ar Orffennaf 2il. Pob dymuniad da, Emlyn, a diolch am dy waith hefo'r Llais. Digon o chwarae golff yn ei gadw'n ifanc! Dy deulu a dy holl ffrindiau a chymdogion am gofio atat gan obeithio i ti fwynhau'r dathlu.
Gorwyres
Ganed gorwyres fach newydd sbon ym mis Awst i Olga a Haydn Davies, Yr Hen Berllan, Dob, sef Greta Haf, merch fach i Iestyn a Bethan ym Methesda, a chwaer fach i Mabli a Mari. Mae Iestyn yn fab i Sue a Michael Stokes, Allt Penybryn, Bethesda. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu.

Rhedwr o fri
Bu Bleddyn Hedd Williams, Cilfodan, Bethesda, y tu hwnt o brysur yn ystod yr haf yn rhedeg Râs yr Wyddfa yn ogystal â cherdded, rhedeg a dringo pymtheg copa mynyddoedd uchaf Cymru er cof am un o'i ddisgyblion yn Ysgol Tryfan fu farw yn hynod annisgwyl yn ystod y gwyliau, sef Lucy Halpin o Fangor. Llongyfarchiadau, Bleddyn, a diolch i ti am dy ymdrech a'th garedigrwydd. Mae

Siop Newydd Tregarth

Mae gan Dregarth siop unwaith eto a phawb yn sicr yn dathlu drwy roi gwaedd enfawr o 'Hwrê'. Diolch i'r perchnogion newydd, Ram a Sara, sydd hefyd yn berchen ar Siop a Swyddfa'r Post yn Rachub, am eu gweledigaeth a'u dewrder yn cychwyn y fenter newydd sbon yma yn Nhregarth. Maes o law, eu gobaith ydi agor Swyddfa Bost a phawb wrth eu bodd na fyddai'n rhaid mynd yn bell i bostio wedyn. Agorwyd y siop yn swyddogol gan ein cynghorydd sir, sef Beca Roberts.

Ewch ati, drigolion y pentref a'r ardal, i gefnogi'r fenter gyffrous newydd yn ein pentref ni.



Pen-blwydd Priodas

Yn ystod mis Awst dathlodd Eirwen a Wynn, Tyddyn Dicwm, 69 o flynyddoedd o briodas. Llongyfarchiadau gwresog i chi eich dau a phob iechyd a bendith i'r dyfodol.

Bleddyn yn fab i Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Mae tymor newydd ar gychwyn i'r gangen a chyfle i'r aelodau ddod at i gilydd unwaith eto ac i aelodau newydd ymuno hefo ni ar nos Lun gynta'r mis yn Ffestri Capel Shiloh Newydd, Tregarth. Mae'r nosweithiau'n hwyliog a chyfle i wrando ar siaradwyr difyr yn ogystal â chyfleoedd i fwyta allan a theithio i lefydd diddorol gyda chwmni da.

Bydd noson gyntaf y gangen am 7.30 nos Lun, Medi 7, sef noson o Frethyn Cartref. Dewch yn llw!

1969

M.HUGHES
A'I FAB

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Capel Shiloh Newydd Tregarth

Wedi cyfnod o seibiant yn ystod mis Awst, braf iawn fydd dychwelyd i'r oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch bob nos Sul. Dyma'r trefniant am yr wythnosau nesa.

Medi 6	R.F. Capon, Benllech
Medi 13	Olaf Davies, Llandegfan
Medi 20	Trefniant Lleol
Medi 27	Dr Ian Morris
Hydref 4	Nerys Griffiths, Caernarfon
Hydref 11	Gwyndaf Jones, Bangor
Hydref 12	Nos Lun Gwasanaeth y Diolchgarwch
Hydref 18	Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Hydref 25	Huw Pritchard, Llangefni

Drws Agored


Er na chawsom ddod at ein gilydd yn yr oedfaon ar y Sul yn ystod mis Awst bu Drws Agored ar fore Gwener yn brysyr gyda chroeso i bawb a hoffai droi i mewn am baned a sgwrs. Diolch i bob un ohonoch a ddaeth i mewn!

Braf iawn fod Eirwen yn ôl adra yn Nhyddyn Dicwm ar ôl wythnosau i ffwrdd yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Eryri. Falch iawn ei bod hi'n gwella, a'n gobaith mawr yw bydd hi, maes o law, yn medru mynychu oedfa ar y Sul a chael ei chroesawu i Drws Agored!

Cawsom gyfle i gyfrannu i Apêl Cymorth Cristnogol i'r Ddrycin yn Fenswela ac i Gronfa y teulu bach o bentref Bethel a gollodd bopeth o'u heiddo pan fu tân yn eu cartref. Diolch i chi i gyd am eich caredigrwydd hael.

Oes diddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?

CROESAIR



ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/AWST 2026

AR DRAWS 1 Dig, 3 Mab, 5 Saga, 8 Mieri, 9 Dimeiau, 10 Arlywydd, 12 Arian, 13 Nam, 15 Gwadu, 17 Neb, 19 Picell, 20 Economi, 23 Cynefin, 24 Gwisg, 25 O Ddŵr, 26 Dyn, 27 Nog

I LAWR 1 Damwain, 2 Gwefl, 3 Meirw, 4 Bedydd, 5 Simsanu, 6 Gwirion, 7 Buan, 11 Ysw, 14 Mecanydd, 15 Gellifor, 16 Dic, 18 Briwggig, 19 Pice, 20 Ennyd, 21 Organ, 22 Orion

Dyma'r gwallau ymddangosodd y tro hwn: 'mecanid' a 'mecanig' yn lle 'mecanydd' (14 I Lawr), ac 'y dŵr' ac 'i gar' yn lle'r ateb cywir 'o ddŵr' (25 Ar Draws)

Mae'r canlynol i'w canmol am atebion hollol gywir. Da iawn chi John Ffrancon Griffith, Abergele; Myrddin Williams, Capel Uchaf, Clynnog; Barbara Jones, Talybont; Elsi Prytherch, Waen Wen; Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Tregarth; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Doris Shaw, Margaret Williams, Rita Bullock, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Iorwerth Michael, Bangor; Gill King, Mynydd Llandygai; M. A. Jones, Wendy Eccles, Llanllechid

Y sawl sy'n mynd â'r wobr a'r clod y mis yma yw Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont, Bangor, Gwynedd LL57 3YA. Llongyfarchiadau i chi.

Atebion erbyn 2ail Hydref, 2026 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

AR DRAWS


- 1 Suo ar goll i gael hyd i lawer mwy nag un (6)
- 5 Dywedir fod y ddraig goch yn rhoi hwn (6)
- 8 Rhoi pum cant o flaen yr ail drwg i dalu'n ôl (4)
- 9 Wyth yn maesu yn rhyfedd i roi rhyddhad a chysur (8)
- 10 Ble mae llongwr Cymreig yn cysgu – ho! Cam i un Seisnig (8)
- 11 Twll bach yn y jig-sô; mae hwn ar goll (4)
- 12 Y chi yn bendant, a neb arall - clasurol (6)
- 14 Heb fod yn gyfyngedig (6)
- 16 Yr hyn wnaeth bonheddwr mawr o'r Bala (4)
- 18 Mae tŷ mawr iddynt yn ninas fwyaf ein cymdogion er fod Cymry amlwg yno hefyd (8)
- 20 Gwneud yn llenyddol (8)
- 21 “ - - - - di - gwt”, y pluog a'i gynffon brysur (4)
- 22 Testun cystadleuaeth Medal Ryddiaeth y Garreg Las 2026 (6)
- 23 “A - - - - - olaf, a chwardd orau” hen ddihareb (6)

I LAWR

- 2 Heb ei debyg yn unman (7)
- 3 Nid penisel o gwbl ynghanol hyn, ond yn hollol frwdfrydig (5)
- 4 Breuddwydion y prydydd cysglyd o Lasynys (13)
- 5 Y natur o fod yn garedig wrth ffrindiau a chymdogion (13)
- 6 America 1765; Ffrainc 1789; Rwsia 7) 1917)
- 7 Dyma sut y cyfeirir at Y Beibl yn aml (1,4)
- 13 Dychwelyd i le'r awch am waith gynt ym Methesda, Llanberis a Stiniog (7)
- 15 Cenfgen (7)
- 17 Cawsom y rhain yn fuan iawn, ac yn dal gennym hyd y diwedd (5)
- 19 Yr Eglwys Fethodistaidd, fel capel Shiloh, Tregarth (5)



ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909

